

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:  
42/2016  
DYDDIAD CYHOEDDI:  
13/07/2016

# Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid:

## Astudiaeth ddilydol i'r gwerthusiad ffurfiannol

FFRAMWAITH YMGYSYLLTU A DATBLYGU IEUENCTID -  
CAMAU DILYNOL: ADRODDIAD TERFYNOL

ICF International



Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r  
safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Sara James

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 6812

E-bost: [sara.james@wales.gsi.gov.uk](mailto:sara.james@wales.gsi.gov.uk)

## Tabl cynnwys

Rhestr o dablau.....	2
Geirfa .....	3
1. Cyflwyniad.....	6
2. Prif ganfyddiadau .....	9
3. Statws y fframwaith .....	19
4. Asesiad trosolwg o'r cynnydd ers y prif werthusiad ffurfiannol .....	24
5. Rheoli a gweithredu'r fframwaith .....	26
6. Trefniadau gweithredol.....	30
7. Adnabod yn Gynnar .....	33
8. Broceriaeth.....	40
9. Orlhain a chyfnodau pontio pobl ifanc .....	46
10. Darpariaeth .....	48
11. Cyflogadwyedd.....	52
12. Atebolrwydd .....	55
13. Astudiaeth achos Gogledd Cymru.....	57
14. Cronfa Ddata Gyrfa Cymru.....	64
15. Argymhellion .....	69
Atodiad 1 – Canllawiau testun.....	70
Atodiad 2 – YEPF Arolwg rhanddeiliaid .....	81

**Rhestr o dablau**

Tabl 1.1	Ymatebwyr cyfweliad.....	144
Tabl 1.2	Ymatebwyr arolwg.....	166

## Geirfa

<b>Acronym</b>	<b>Diffiniad</b>
AWS	Swyddogion Presenoldeb a Lles
BRAVO	Asesiad Risg a Chanlyniadau Gwerth Ychwanegol Coleg Pen-y-bont ar Ogwr
BTEC	Cyngor Addysg Busnes a Thechnoleg
CAHMS	Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
CAIS	Cyngor Alcohol Information Service
CAP	Proses Ymgeisio Gyffredin
CF	Cymunedau yn Gyntaf
CV	Curriculum Vitae
CWVYS	Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol
CWW	Gofalwyr a'r Byd Gwaith
DWP	Yr Adran Gwaith a Phensiynau
EAL	Saesneg fel Iaith Ychwanegol
EI	Adnabod yn Gynnar
EOTAS	Derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol
EPC	Cydlynwyr Ymgysylltu a Dilyniant - Swyddogion Awdurdodau Lleol sydd yn arwain y gwaith o weithredu'r fframwaith
ESF	Cronfa Gymdeithasol Ewrop
AB	Addysg Bellach
FIS	Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

FSM	Prydau Ysgol am Ddim
TGAU	Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd
GISDA	Grŵp Ieuencid Sengl Digartref Arfon
HESA	Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch
HMRC	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
IAG	Gwybodaeth, Cyngor neu Arweiniad
ICF	Cronfa Canol Dinas
ISOS	ISOS
ISP	Protocolau Rhannu Gwybodaeth
JCP	Y Ganolfan Byd Gwaith
JGW	Twf Swyddi Cymru
KIT	Cadw Mewn Cysylltiad
ALLau	Awdurdodau Lleol
LLWR	Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru
LMI	Gwybodaeth am y Farchnad Lafur. (Ffeithiau ansoddol neu feintiol, dadansoddiadau neu ddehongliad o strwythur a phrosesau marchnad lafur y gorffennol, y presennol neu'r dyfodol a'r ffactorau sy'n dylanwadu arni.)
LSB	Bwrdd Gwasanaethau Lleol
MIS	System Gwybodaeth Reoli
NEET	Pobl ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant
NTfW	Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
PEP	Llwybrau Blaengar i Feithrin Cysylltiadau

PLASC	Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion
PPG	Grŵp Positive Pathways
PRU	Uned Cyfeirio Disgyblion
RAG	Coch, Ambr, a Gwyrdd
RPA	Cynyddu oed cyfranogiad
SAO	Uwch Swyddog Atebol
SEET	Cefnogi Ymgysylltu mewn Addysg a Hyfforddiant
AAA	Anghenion Addysgol Arbennig
SIP	Cynllun Gwella Ysgol
BBaCh	Busnesau bach a chanolig
SRO	Uwch Berchennog Cyfrifol
STEM	Hyfforddiant Safonau Gweithgynhyrchu Electroneg
TSW	Gweithwyr Cefnogi Pontio
UKCES	Comisiwn y Deyrnas Unedig dros Gyflogaeth a Sgiliau
VCS	Gwasanaeth Cymunedol Gwirfoddol
WASPI	Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru
WBL	Dysgu Seiliedig ar Waith
CBAC	Cyd-bwyllgor Addysg Cymru
WLGA	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
YEPF	Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid
YMCA	Coleg Cymunedol Cymru YMCA
YOT	Timau Troseddu Ieuencid

# 1. Cyflwyniad

## Diben yr astudiaeth

1.1 Nod y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid (YEPPF) yw lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET). Mae gan yr YEPPF chwe chydran, yr ystyrir eu bod yn yn effeithiol o ran gwella ymgysylltu a datblygu ieuencid pan gânt eu gweithredu gyda'i gilydd fel rhan o strategaeth. Maent fel a ganlyn:

- Adnabod yn gynnar;
- Broceriaeth a chydlynu cymorth gwell;
- Orlhain a phontio cryfach yn ymwneud â phobl ifanc;
- Sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion pobl ifanc;
- Ffocws ar sgiliau cyflogadwyedd a chyfleoedd ar gyfer cyflogaeth ymysg pobl ifanc; a
- Mwy o atebolrwydd.

1.2 Mae awdurdodau lleol (ALlau) wedi cael y rôl o arwain y gwaith o weithredu'r Fframwaith, gan weithio'n agos gyda Gyrfa Cymru, gwasanaethau ieuencid, ysgolion, darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16, y sector gwirfoddol a phartneriaid eraill.

1.3 Penodwyd ICF ac ymchwil Arad i gynnal gwerthusiad ffurfiannol o'r Fframwaith, rhwng haf 2014 a gwanwyn 2015. Cyhoeddwyd yr adroddiad o'r gwerthusiad ffurfiannol ar wefan Llywodraeth Cymru ym mis Awst 2015, yn: <http://gov.wales/statistics-and-research/formative-evaluation-youth-engagement-progression-framework/?lang=cy>.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau astudiaeth ddilynol, sydd yn ychwanegu at y canfyddiadau o'r gwerthusiad ffurfiannol blaenorol ac yn eu diweddarau, ac yn dangos y sefyllfa o ran gweithredu'r fframwaith ym mhob awdurdod lleol erbyn mis Chwefror 2016.



1.4 Er mwyn cyflawni hyn, amcanion penodol yr ymchwil ddilynol oedd:

- Nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud gan bob partner ac ALI ers yr astudiaeth flaenorol ar weithredu'r fframwaith. Roedd y prif feysydd hyn yn cynnwys:
  - Datblygu a sefydlu systemau adnabod yn gynnar ôl-16;
  - Ymgysylltu ysgolion yn y gwaith o adnabod yn gynnar ac olrhain;
  - Heriau wrth weithredu trefniadau gwaith arweiniol,
  - Orlhain ôl-16 a rhannu gwybodaeth amserol a pharhaus gan ddarparwyr;
  - Mapio darpariaeth ar y cyd â mapio'r farchnad lafur;
  - Ymrwymiad i'r Prosbectws Ardal Gyffredin;
  - Cynnydd mewn perthynas â maes cyflogadwyedd y fframwaith;
  - Ffocws ar bobl ifanc mewn gwaith ond heb hyfforddiant; ac
  - Ymgynghori â phobl ifanc;
- Cipio'r dull rhanbarthol o adnabod yn gynnar, broceriaeth ac olrhain yng Ngogledd Cymru a buddion posibl y model hwn;
- Deall pa mor dda y mae'r data a ddarperir gan Gyrfa Cymru ar gyfer awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith o weithredu'r fframwaith a deall ei effaith;
- Cipio effaith gweithredu'r fframwaith ar lefel ALI ac ar draws Cymru o ddata a gasglwyd gan Ystadegau Cymru a Gyrfa Cymru ac o safbwyntiau ALIau, partneriaid, a rhanddeiliaid eraill.

### **Strwythur yr adroddiad**

1.5 Mae strwythur gweddill yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- Mae Pennod 2 yn cyflwyno'r prif ganfyddiadau, methodoleg yr astudiaeth a gwendidau methodolegol;
- Mae Pennod 3 yn cyflwyno statws y fframwaith, y cyd-destun polisi a data cyd-destunol;
- Mae Pennod 4 yn rhoi asesiad cyffredinol o'r cynnydd;

- Mae Pennod 5 yn nodi'r canfyddiadau yn ymwneud â gweithredu'r fframwaith yn strategol;
- Mae Pennod 6 yn archwilio'r trefniadau gweithredol ar gyfer y fframwaith;
- Mae Penodau 7 i 12 yn cyflwyno canfyddiadau ar weithredu chwe chydran YEPF, yn cynnwys crynodeb o'r cynnydd yn erbyn cerrig milltir allweddol;
- Mae Pennod 13 yn cyflwyno astudiaeth achos Gogledd Cymru;
- Mae Pennod 14 yn cyflwyno'r canfyddiadau mewn perthynas â defnyddioldeb data cronfa ddata Gyrfa Cymru;
- Mae Pennod 15 yn nodi'r argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru.

## **2. Prif ganfyddiadau**

- 2.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno prif ganfyddiadau'r adroddiad hwn o dan bob un o brif elfennau'r fframwaith.
- 2.2 Yn gryno, mae cynnydd mewn perthynas ag adnabod yn gynnar, broceriaeth ac olrhain wedi parhau'n gryf, yn arbennig yn ymwneud â phobl ifanc hyd at 18 oed. Ychydig iawn o awdurdodau sy'n datblygu trefniadau sy'n cwmpasu'r fframwaith yn ei gyfanrwydd a'r maes cyflogadwyedd yw'r elfen sydd heb ei datblygu fwyaf.
- 2.3 Hefyd, cafwyd mwy o gyfathrebu a chydlynu rhwng rhanddeiliaid o ganlyniad i'r Fframwaith ac mae partneriaid yn parhau'n gadarnhaol yn ei gylch, er bod ALLau yn nodi bod gostyngiadau o ran cyllid ac ailstrwythuro yn herio cynnydd.

### **Rheoli a gweithredu'r fframwaith**

- 2.4 Mae gan bob ALI ond un grwpiau strategol i fonitro cynnydd a gweithredu'r fframwaith. Yn fras, ystyriwyd bod cynrychiolaeth a phresenoldeb yn y grŵp hwn yn briodol gan yr ymatebwyr.
- 2.5 Mewn nifer o ALLau, mae cyfarfodydd strategol wedi mynd yn llai cyson.
- 2.6 Er bod y rhan fwyaf o'r grwpiau strategol yn monitro cyfraddau'r bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), mae effeithiolrwydd y gwaith monitro hwn yn amrywio ar draws ALLau.

### **Trefniadau gweithredol**

- 2.7 Mae trefniadau gweithredol wedi eu sefydlu ar draws ALLau o dan arweiniad Cydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu (EPC). Roedd EPC yn cael eu hystyried yn hanfodol i'r trefniadau hyn a mynegwyd pryder gan ymatebwyr cyfweiliad y gallai rôl yr EPC fod mewn perygl heb gymorth ariannol pellach gan Lywodraeth Cymru.
- 2.8 Roedd tua hanner yr ALLau wedi esblygu naill ai gyfansoddiad eu grŵp gweithredol neu ffocws y cyfarfodydd; ond, yn gyffredinol, mae'r trefniadau'n sefydlog bellach. Mae'r ffocws gweithredol yn dal ar

adnabod yn gynnar, olrhain a broceriaeth gyda rhai awdurdodau lleol yn datblygu trefniadau sydd yn cynnwys y fframwaith cyfan.

- 2.9 Yn y rhan fwyaf o ALLau, roedd ymatebwyr cyfweiliad yn teimlo bod rhannu data a gwybodaeth wedi gwella, fodd bynnag, mewn lleiafrif bach, mae anawsterau o ran protocolau rhannu gwybodaeth (ISP) yn parhau.

### **Adnabod yn Gynnar**

- 2.10 Mae pob ALI bellach wedi sefydlu system adnabod yn gynnar. Mae amrywiaeth, fodd bynnag, yn yr amser y mae'r rhain wedi bod yn gweithredu, yn amrywio o'r cyfnod cyn i YEPF ddechrau ym mis Medi 2013 i'r rheiny sy'n cynnal peilot o fodel newydd ar hyn o bryd.
- 2.11 Mae cynnydd ers y gwerthusiad diwethaf wedi golygu ymestyn systemau adnabod yn gynnar cyn-16. Mae'r rhan fwyaf bellach yn cynnwys y grŵp oedran ôl-16 ac wedi ymestyn i gynnwys dangosyddion mwy cynnil ynghyd â dangosyddion craidd ymddygiad, cyrhaeddiad a phresenoldeb.
- 2.12 Mewn o leiaf hanner yr ALLau, awgrymwyd bod rhannu gwybodaeth ymysg colegau a/neu ddarparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith (WBL) a'r ALI yn dda. Fodd bynnag, canfu'r astudiaeth ddilynol, mewn rhyw ddwy ran o dair o'r achosion, fod darparwyr ôl-16 yn parhau i ddefnyddio dulliau casglu data unigol a gwahanol. Yn benodol, roedd ansawdd y data gan gydweithwyr yn cael ei ystyried yn amrywiol ar draws ALLau.
- 2.13 Mae dull rhanbarthol, cydlynus o Adnabod yn Gynnar bellach wedi ei sefydlu ar draws Gogledd Cymru. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn gost-effeithiol ac yn caniatáu cysondeb ar draws ALLau sydd, yn ei dro, yn cynyddu hyder yng nghywirdeb y data.

### **Broceriaeth**

- 2.14 Mae trefniadau gwaith arweiniol yn dal yn bodoli ar draws pob ALI. Mae dyrannu gweithwyr arweiniol yn gyffredinol yn cael ei benderfynu

ar sail ad-hoc o fewn grwpiau gweithredol. Y canfyddiad oedd bod cynrychiolaeth colegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith mewn grwpiau sefydliadol wedi arwain at y sefydliadau hynny'n cymryd rôl y gweithiwr arweiniol yn gynyddol.

- 2.15 Yn gyffredinol, mae gwaith arweiniol yn cael ei drefnu gan haenau Gyrfa Cymru<sup>1</sup>.
- 2.16 Mae broceriaeth cyn ac ôl-16 wedi eu sefydlu bellach ond mae bwlch o hyd ar gyfer y grŵp 18 oed. Dim ond 40 y cant o ymatebwyr yr arolwg nododd fod yr ALLI wedi egluro sut y dylid dyrannu gweithwyr arweiniol (neu swyddogaeth debyg) i bobl ifanc.
- 2.17 Ar draws y rhan fwyaf o ALLau, ni chafwyd ymarfer o dan YEPF i gasglu safbwyntiau pobl ifanc.

### **Olrhain a chyfnodau pontio pobl ifanc**

- 2.18 Mae ALLau yn defnyddio eu systemau adnabod yn gynnar safonedig mewn cyfarfodydd gweithredol i adolygu'r data a diweddarau statws pobl ifanc unigol.
- 2.19 Yn gyffredinol, mae cyfathrebu rhwng ysgolion ac ALLau yn effeithiol ac wedi ei sefydlu'n dda cyn ac ôl-16. Roedd diffyg ymrwymiad i YEPF gan arweinwyr mewn nifer fach o ysgolion yn dal i gael ei ystyried yn rhwystr i drefniadau olrhain ym mhob ALLI bron. Er bod ymgysylltu â darparwyr ôl-16 yn cael ei weld fel rhywbeth cadarnhaol ar y cyfan, roedd rhywfaint o amrywiad yn lefel yr ymgysylltu rhwng darparwyr.
- 2.20 Nid oedd gan unrhyw ALLI drefniadau ar gyfer olrhain pobl ifanc mewn swyddi heb hyfforddiant.

---

<sup>1</sup> Mae Gyrfa Cymru a rhanddeiliaid eraill yn defnyddio model haenau i nodi lefel ymgysylltu person ifanc a'r math o gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. Mae mwy o fanylion ar gael ar dudalen 29 o Gynllun Gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid, a gyhoeddwyd yn 2013 ac sydd ar gael yma; <http://gov.wales/docs/dcells/publications/131007-ye-framework-implementation-plan-cy.pdf>. Cafodd chweched haen (haen 0) ei chyflwyno yn 2014-15, gyda'r bwriad o gofnodi pobl ifanc na ellir eu mapio yn erbyn haen (1 i 5) naill ai oherwydd côd post, oed neu statws.

## Darpariaeth

- 2.21 Er bod mapio darpariaeth ranbarthol wedi cael ei gwblhau yng Ngogledd Cymru yn ddiweddar, dim ond traean o'r ALI oedd wedi diweddarau eu mapiau ers i'r fframwaith gael ei lansio.
- 2.22 Roedd pryderon, oherwydd cyfyngiadau gallu Cydllysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu a staff eraill ALI, y byddai diweddarau'r ymarfer mapio darpariaeth yn ddigon rheolaidd i'w wneud yn ddefnyddiol yn her.
- 2.23 Nododd pob ALI fod y **Prosbectws Ardal Gyffredin (CAP)** wedi ei ddiweddarau i raddau helaeth a'i fod ar gael i ysgolion. Fodd bynnag, nid oedd ysgolion ar y cyfan yn hyrwyddo CAP ac nid oedd llawer o ymwybyddiaeth ohono ymysg ALLau a rhanddeiliaid eraill.
- 2.24 Ar draws ALLau, nid oedd llawer o waith gan ysgolion ac ALLau i hyrwyddo'r **Warrant Ieuencid**<sup>2</sup>.

## Cyflogadwyedd

- 2.25 Datgelodd cyfweiliadau cyfranogwyr a rhanddeiliaid mai'r teimlad oedd mai'r haen cyflogadwyedd oedd yr elfen oedd heb ei datblygu fwyaf yn y fframwaith. Fodd bynnag, nododd llawer o ALLau raglenni, digwyddiadau a gweithdai penodol a gynhaliwyd o dan YEPF.
- 2.26 Ni wnaeth unrhyw ymatebwyr cyfweiliad nodi allgymorth na darpariaeth wedi ei hanelu'n benodol at bobl ifanc mewn swyddi heb hyfforddiant.

## Atebolrwydd

- 2.27 Ceir dealltwriaeth well o gyfrifoldebau ac atebolrwydd rhanddeiliaid.
- 2.28 Mae pryder o hyd ymysg rhai ALLau bod ymrwymiad ar lefel uwch yn yr ALI yn dal yn her a'r awgrym yw bod hyn yn sgil natur anstatudol y canllawiau.
- 2.29 Mae atebolrwydd ôl-18 yn dal yn faes sydd angen ei ddatblygu'n fwy gan ALLau. Mae nifer fach o'r ALLau yn credu nad yw darpariaeth ôl-18

---

<sup>2</sup> Y Warrant Ieuencid yw cael cynnig, derbyn a dechrau lleoliad addas mewn addysg neu hyfforddiant ar gyfer person ifanc sy'n symud am y tro cyntaf o addysg orfodol yn 16 oed.

yn rhan o'r fframwaith ac felly nid ydynt yn bwriadu gweithio gyda'r grŵp hwn. Er gwaethaf heriau o ran sicrhau protocolau rhannu gwybodaeth (ISP) gyda'r Ganolfan Byd Gwaith (JCP) ar gyfer y garfan ôl-18, ceir enghreifftiau lle mae trefniadau lleol wedi cael eu gwneud i hwyluso cyfathrebu gyda JCP. Er enghraifft, trwy ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd gan staff Gyrfa Cymru sydd ar secondiad i JCP.

### **Adroddiadau Cronfa Ddata Gyrfa Cymru**

- 2.30 Mae cronfa ddata Gyrfa Cymru yn hanfodol i systemau adnabod, broceriaeth ac olrhain ALLau. Yn y rhan fwyaf o achosion, nododd EPC bod yr ALL yn cymryd cyfrifoldeb dros draws-wirio cywirdeb a chydweddu data cyn ac ôl-16 gan ddarparwyr i fodel pum haen Gyrfa Cymru. Roedd y rhan fwyaf o'r ALLau yn derbyn gwybodaeth o system cronfa ddata Gyrfa Cymru.
- 2.31 Mewn cyfarfodydd strategol, nodwyd mai'r gronfa ddata oedd y brif ffynhonnell ddata ar gyfer monitro cynnydd y fframwaith yn gyffredinol. Fodd bynnag, ceir rhai cyfyngiadau i'r data hwn, yn bennaf o ganlyniad i amrywiad o ran casglu data rhwng ALLau a gyflwynir ym mhennod 14.

### **Methodoleg**

*Cyfnod 1: Cychwyn a chwmpasu cychwynnol (Rhagfyr 2015)*

- 2.32 Diben y cyfnod cwmpasu oedd terfynu dulliau ymchwil a sefydlu argaeledd deunydd i gefnogi'r ymchwil. Roedd yn cynnwys:
- Adolygiad cychwynnol o ddogfennau'n ymwneud â'r YEPF. Roedd hyn yn cynnwys dogfennau rheoli rhaglen mewnol a chofnodion cyfarfodydd bwrdd y rhaglen;
  - Cyfweiliad cwmpasu gyda thri aelod o staff Gyrfa Cymru i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r Gronfa Ddata Gwybodaeth Cleientiaid (y system sydd yn cynnwys data haenau Gyrfa

Cymru)<sup>3</sup> ymhellach, gan ganolbwyntio, yn arbennig, ar ansawdd a defnyddioldeb y data.

*Cyfnod 2: Gwaith Maes (Ionawr-Chwefror 2015)*

- 2.33 Cynhaliwyd 44 cyfweiliad dros y ffôn (dau o leiaf ym mhob ALI, un ohonynt gyda'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu (EPC) penodedig) er mwyn sefydlu'r cynnydd a wnaed yn gweithredu'r YEPPF ym mhob ALI ers dechrau 2015. Roedd yr ail berson i gael cyfweiliad wedi'i ddethol i roi safbwynt gwahanol ac yn cynnwys uwch swyddogion atebol, aelodau o adrannau eraill yr awdurdod lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill fel Gyrfa Cymru, Cymunedau yn Gyntaf, y Ganolfan Byd Gwaith (JCP), a darparwyr ôl-16. Mae'r ymatebwyr cyfweiliad wedi eu nodi yn y tabl isod:

**Tabl 1.1 Ymatebwyr cyfweiliad**

<b>Math o randdeiliad</b>	<b>Nifer yr ymatebwyr</b>
Ymgysylltu leuenctid: EPC	22
Gyrfa Cymru	5
Gwasanaethau Addysg/Ymgysylltu leuenctid ALI	5
Ymgysylltu leuenctid: Uwch Swyddogion Atebol	4
Gwasanaeth leuenctid	2
Coleg AB	2
Darparwr WBL	1
Gwasanaethau i Deuluoedd ALI	1
Cymunedau yn Gyntaf	1
Y Ganolfan Byd Gwaith	1

- 2.34 Cynhaliwyd wyth cyfweiliad rhanddeiliaid cenedlaethol gyda Choleg Gŵyr, Coleg Llandrillo Menai, WLGA, CWVYS, NTfW, Colegau Cymru, Gyrfa Cymru a JCP. Roedd y cyfweiliadau hyn yn cynnwys:

- Arweinyddiaeth a rheolaeth YEPPF ar lefel genedlaethol;
- Cynnydd ers dechrau 2015 ar lefel ALI;

<sup>3</sup> Gelwir cronfa ddata gwybodaeth cleientiaid Gyrfa Cymru yn gronfa ddata 'IO' hefyd.



- Camau gweithredu i ymateb i adroddiad CWVYS a'r gwerthusiad ffurfiannol;
  - Effaith gweithredu'r fframwaith;
  - Meysydd llwyddiant y gellir eu priodoli i'r fframwaith;
  - Sut y gellid gweithredu'r fframwaith yn fwy llwyddiannus.
- 2.35 Mae'r canllawiau testun ar gyfer cyfweiliadau wedi eu nodi yn Atodiad 1.
- 2.36 Dosbarthwyd ddsbarthu arolwg ar-lein gennym yn Gymraeg a Saesneg i gynrychiolwyr sefydliadau oedd wedi bod yn gysylltiedig â gweithredu'r YEPPF. Mae hwn ar gael yn Atodiad 2.
- 2.37 Mae'r arolwg wedi rhoi diweddariad ar yr amgyffrediad o'r trefniadau sydd ar waith. Mae'n rhoi tystiolaeth feintiol o'r cynnydd a wnaed yn datblygu'r Fframwaith er mwyn ategu'r dystiolaeth ansoddol.
- 2.38 Gofynnwyd i EPC ddarparu manylion cyswllt rhanddeiliad yn eu hardal nhw (gan ddiweddarau'r rhestrau a ddarparwyd ym mis Ionawr 2015 ar gyfer y gwerthusiad blaenorol). Roedd y cysylltiadau'n cynnwys:
- Ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion;
  - Colegau;
  - Darparwyr WBL;
  - Darparwyr sector gwirfoddol a chymunedol;
  - Y Ganolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru;
  - Cyflogwyr sy'n ymgysylltu â YEPPF trwy ALLau (er enghraifft, cynrychiolwyr Byrddau Cyflogaeth a Sgiliau Lleol);
  - Adrannau a gwasanaethau awdurdodau lleol (er enghraifft, Gwasanaethau Ieuenctid, Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf, Troseddu Ieuenctid, Datblygu Economaidd, plant sy'n derbyn gofal, tai pobl ifanc, addysg a hyfforddiant 14-19); a'r
  - Consortiwm Addysg Rhanbarthol.

- 2.39 Dosbarthodd CWVYS a NTfW yr arolwg ymysg eu haelodau hefyd er mwyn annog darparwyr WBL a'r trydydd sector i gymryd rhan yn yr arolwg.
- 2.40 O boblogaeth arolwg o ryw 1,279 o ymatebwyr dilys<sup>4</sup>, derbyniwyd 435 o ymatebion (cyfradd ymateb o 34 y cant). Mae cyfansoddiad yr ymatebion yn ôl math o randdeiliad wedi ei nodi yn Nhabl 1.1. Roedd bron hanner yr ymatebwyr o ALLau, 24 y cant o ddarparwyr ôl-16 ac ysgolion, 14 y cant o'r sector gwirfoddol ac 8 y cant o Gyrfa Cymru.

**Tabl 1.2 Ymatebwyr arolwg**

<b>Math o randdeiliad</b>	<b>Nifer yr ymatebwyr</b>	<b>Canran yr ymatebwyr</b>
ALI	196	45.1
Sefydliad sector gwirfoddol a chymunedol	62	14.3
Darparwr ôl-16	58	13.3
Ysgol	48	11.0
Gyrfa Cymru	33	7.6
Cyflogwr	8	1.8
Y Ganolfan Byd Gwaith	6	1.4
Consortiwm addysg rhanbarthol	1	0.2
Arall	2	0.5

Ffynhonnell: Arolwg rhanddeiliaid

Sylfaen = yr holl (435) randdeiliaid a holwyd. Gofynnwyd i'r ymatebwyr i 'Nodi'r math o sefydliad yr ydych yn gweithio ynddo'.

- 2.41 O'r 196 o ymatebwyr ALI, roedd y rhan fwyaf yn gweithio mewn addysg neu hyfforddiant (60 y cant) neu wasanaethau ieuenctid (33 y cant). O'r 58 o ymatebwyr oedd yn ddarparwyr ôl-16, roedd 47 y cant yn gweithio mewn colegau, 53 y cant yn gweithio gyda darparwyr dysgu seiliedig ar waith a thri gyda math arall o ddarparwr. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r sector gwirfoddol a chymunedol yn gweithio ym maes gwaith ieuenctid gwirfoddol (60 y cant), gyda'r gweddill o faes iechyd, tai, a chynghorau gwirfoddol sirol. O'r 48 o

<sup>4</sup> Cyfeirir at yr ymatebwyr y cafodd eu rôl, eu sefydliad a'u cyfeiriad ebost eu cadarnhau fel rhai cyfredol gan ein cysylltiadau.

ymatebwyr ysgol, roedd 66 y cant yn gweithio mewn ysgol gyda chweched dosbarth cysylltiedig, 17 y cant yn gweithio mewn ysgol arbennig, a 15 y cant mewn ysgol ar gyfer plant 11-16 oed. Ni chafwyd unrhyw ymatebion o Unedau Cyfeirio Disgyblion (PRU).

2.42 Cynhaliwyd astudiaeth achos yn canolbwyntio ar Bartneriaeth Gogledd Cymru. Roedd hyn yn cynnwys cynnal gweithdy gyda 6 EPC ac un prif weithiwr arweiniol i drafod eu proses ar y cyd o ddatblygu dull cyffredin o adnabod yn gynnar, broceriaeth ac olrhain. Roedd yr astudiaeth achos yn cynnwys:

- Cydlynu dull partneriaeth o adnabod yn gynnar, broceriaeth ac olrhain;
- Y rhwystrau i weithredu dull rhanbarthol a sut cafodd y rhain eu goresgyn; a
- Gwerth ychwanegol y cytundeb partneriaeth a'r buddion ymddangosiadol hyd yn hyn.

2.43 Cynhaliwyd dadansoddiad data o Gronfa Ddata Gyrfa Cymru i archwilio ei ddefnydd o fewn ALLau a'i chyfyngiadau.

### **Cyfyngiadau i'r fethodoleg**

2.44 Ceir rhai cyfyngiadau i'r dadansoddiad o ganlyniad i'r ymchwil a wnaed. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Ar gyfer yr arolwg rhanddeiliaid, gofynnwyd i ALLau anfon manylion cyswllt yr holl rhanddeiliaid sy'n gweithio ym maes ymgysylltu ieuencid atom, yn cynnwys aelodau o grwpiau strategol a gweithredol a sefydlwyd i gefnogi'r gwaith o weithredu YEPF. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod yr arolwg yn cyrraedd y bobl briodol (h.y. y rheiny â gwybodaeth o brosesau YEPF ALI). Am mai'n rhannol y diffiniodd yr ALLau pwy oedd eu rhanddeiliaid, mae sefydliadau nad ydynt yn ymgysylltu'n llawn neu heb lawer o wybodaeth am yr YEPF yn annhebygol o fod wedi derbyn dolen i'r arolwg oni bai eu bod yn aelodau o CWVYS a NTfW. Felly, ni ellir cyffredinoli safbwyntiau'r 435 o ymatebwyr i boblogaeth sefydliadau rhanddeiliaid posibl.

- Yn ystod y gwerthusiad blaenorol, roedd proffil ymatebwyr yr arolwg yn bennaf yn adlewyrchu cyfansoddiad y grwpiau gweithredol a strategol ym mhob ALI. Fodd bynnag, mae ymestyn yr arolwg i gynnwys grŵp llawer ehangach o randdeiliaid yn golygu na ellir cymharu proffil yr ymatebwyr i'r rheiny yn yr arolwg blaenorol. Roedd safbwyntiau'r grŵp ehangach am eu hymwybyddiaeth o'r fframwaith, effeithiolrwydd cydberthynas a chyfathrebu'n ymddangos yn llai cadarnhaol na'r arolwg diwethaf. Er nad yw'n briodol dod i'r casgliad bod yr amgyffrediad o'r fframwaith wedi gwaethygu, dylid cymryd y ffaith fod y sampl ehangach yn llai cadarnhaol fel arwydd y gallai fod angen mwy o ffocws ar ymwybyddiaeth a chyfathrebu.
- Oherwydd y nifer fach o gyfweiliadau (dau ym mhob ALI ar gyfartaledd) dim ond triongliant ac ategiad cyfyngedig o safbwyntiau ar lefel ALI oedd yn bosibl. Roedd hyn yn atal unrhyw gasgliadau rhag cael eu gwneud am effeithiolrwydd y prosesau o fewn ALLau unigol. I leddfau hyn, fe wnaethom gyfweild ag unigolion mewn ALLau yn ogystal â rhanddeiliaid ehangach. Er bod yr ail berson a gafodd ei gyfweild ym mhob ALI, mewn llawer o achosion, yn rhanddeiliad y tu allan i'r ALI, roedd ganddynt gysylltiad agos â gweithredu'r fframwaith ac felly'n debygol o fod â safbwynt cadarnhaol o'r cynnydd hyd yn hyn.
- Mae cyfyngiadau hefyd i gronfa ddata Gyrfa Cymru, oedd yn golygu na ellid defnyddio data i ddeall tueddiadau cyffredinol yn yr ymchwil yma. Gweler pennod 14 am fwy o fanylion am y cyfyngiadau hyn.

### 3. Statws y fframwaith

#### *Cyd-destun polisi*

- 3.1 Mae YEPF yn adeiladu ar waith dwy fenter bolisi flaenorol gan Lywodraeth Cymru a ddyluniwyd i gefnogi cynnydd a datblygiad pobl ifanc. Roedd menter 'Ymestyn Hawliau: cefnogi pobl ifanc yng Nghymru' yn 2000 yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i gefnogi pob person ifanc yng Nghymru i gynyddu eu potensial mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Yn fwy diweddar, datblygodd 'Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Ieuenctid' 2011 egwyddorion 'Ymestyn Hawliau', a atgyfnerthwyd gan gynllun gweithredu 18 pwynt i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Roedd y gweithredoedd hyn yn ymwneud â gwella darpariaeth, sicrhau broceriaeth gref o gefnogaeth ar gyfer pobl ifanc, atebolrwydd ar bob lefel o'r system, a galluogi pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio i gael eu hadnabod yn gynnar.
- 3.2 Mae'r YEPF hefyd yn edrych ar y meysydd hyn, ac yn cyfrannu at bolisi ehangach Llywodraeth Cymru â'r nod o leihau tlodi yng Nghymru. Yn benodol, mae'n cefnogi 'Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi 2012-2016' mewn dau o'i ymrwymadau:
- I leihau nifer y bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i 9 y cant erbyn 2017;
  - I leihau cyfran y bobl ifanc 19- 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru i lefel berthynol i'r DU yn gyffredinol erbyn 2017.
- 3.3 Mae'r YEPF hefyd wedi bod yn bwysig wrth ddatblygu ceisiadau rhanbarthol Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) sydd wedi eu hunioni i egwyddorion YEPF<sup>5</sup>.

#### *Data NEET presennol*

---

<sup>5</sup> Mae nifer o gonsortia wedi gwneud ceisiadau am gymorth gan Echel Blaenoriaeth 3 ESF: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid; Amcan Penodol 2 (Ileihau nifer y bobl ifanc 11-24 oed sydd â'r perygl mwyaf o fynd yn NEET.

- 3.4 Dangosodd y prif ddull mesur pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru fod 10.9 y cant (ffigur dros dro) o'r rheiny oedd yn 16-18 oed yn NEET ar ddiwedd 2014, yr un peth ag yn 2013. Fel 2013, mae'r data yma'n dangos bod dynion yn fwy tebygol na menywod o fod yn NEET (12 y cant o'i gymharu â 10 y cant). Caiff data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ei gofnodi'n chwarterol ond mae'n llai cadarn yn ystadegol na'r prif ddull mesur oherwydd maint ei sampl. Nododd fod 9.6 y cant o bobl ifanc yn NEET yn nhrydydd chwarter 2013. Dangosodd hefyd, o Ch3 2013 i Ch3 2015, fod cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn cynyddu gydag oed. Yn 16 oed, mae tua 4 y cant o bobl ifanc yn NEET. Mae hyn yn codi i ryw 9 y cant yn 17 oed a 16.5 y cant yn 18 oed. Yn yr un cyfnod, mae cyfran uwch o bobl ifanc anabl yn NEET na phobl ifanc nad ydynt yn anabl (17.6 y cant yn erbyn 8.8 y cant).
- 3.5 Ymysg y rheiny sydd yn 19-24 oed, roedd y prif ddata'n dangos mai 20 y cant yn unig oedd yn NEET ar ddiwedd 2014, o'i gymharu â 21.1 y cant ar ddiwedd 2013. Roedd y data hwn hefyd yn dangos bod menywod yn fwy tebygol o fod yn NEET yn yr oedrannau hynny na dynion (23 y cant o'i gymharu â 18 y cant). Mae data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (Ch3 2013- Ch3 2015) yn awgrymu bod cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn cynyddu o 16 y cant yn 19 oed i gyfartaledd o 20 y cant o 20-21 oed. At ei gilydd, mae 42 y cant o bobl anabl 19-24 oed yn NEET.
- 3.6 Mae prif ystadegyn cyfran y bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi aros yn gyson ar 10.9 y cant o 2013 i 2014. Mae hyn yn dilyn cyfnod o ddirywiad cyson er 2008/9 pan oedd y gyfran yn 12 y cant. Yng ngrŵp oedran 19-24, roedd 20 y cant yn NEET yn 2014. Mae hyn yn cyd-fynd â dirywiad cyson yng nghyfran y bobl ifanc yn y grŵp oedran hwn nad ydynt mewn addysg,

cyflogaeth na hyfforddiant er 2010 (23%); er nad yw'r ffigurau wedi gostwng eto i'r lefelau cyn y cwmp mawr yn 2008 (17 y cant)<sup>6</sup>.

- 3.7 Cafwyd gostyngiad hefyd yng nghyfran y bobl ifanc 16 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn ystod y cyfnod hwn yn ôl data cyrchfan Gyrfa Cymru, o 5.7 y cant yn 2009 i 3.1 y cant yn 2014. Mae'r data hwn yn seiliedig ar nifer y bobl ifanc sydd yn gadael blwyddyn 11 mewn ysgolion yn unig.
- 3.8 Mae data Gyrfa Cymru ar gyfer ALLau yn dangos amrywiad sylweddol mewn tueddiadau ac amrywiadau yn nifer a chyfran y bobl ifanc NEET yn ystod y cyfnod hwn. Gan Sir y Fflint oedd y gyfran isaf o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (1.3 y cant) gyda Gwynedd ac Ynys Môn yn dilyn (1.7 y cant yr un). Roedd y gyfran uchaf yng Nghasnewydd (4.7 y cant), gyda Chaerdydd yn dilyn (4.3 y cant)<sup>7</sup>. Fodd bynnag, roedd gan bob un ond tri ALI hefyd y gyfran isaf o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn 2014 nag yn 2011 (19 allan o 22).

#### *Canfyddiadau cynnar ar YEPP*

- 3.9 Ym Mehefin 2015, cynhaliwyd y prif werthusiad ffurfiannol o'r YEPP gan ICF International ac Arad Research. Roedd hyn yn asesu'r cynnydd a wnaed gan ALLau tuag at weithredu'r YEPP, yn cynnwys a yw'n angenrheidiol cyflwyno canllawiau statudol er mwyn sicrhau gweithrediad parhaus y fframwaith. Daeth y gwerthusiad i'r casgliad bod y rhan fwyaf o ALLau yn gwneud cynnydd tuag at weithredu'r YEPP ac nad oedd cyflwyno canllawiau statudol yn angenrheidiol. Ystyriwyd y gallai gwneud YEPP yn statudol newid ysgogiad ysgolion a cholegau i ddarparu data cyrchfan os yw'n gysylltiedig ag atebolrwydd. Yn hytrach, awgrymodd y gwerthusiad y dylai Llywodraeth Cymru roi anogaeth ychwanegol i hwyluso gweithredu'r fframwaith yn fwy effeithiol.

---

<sup>6</sup> Data Llywodraeth Cymru <http://gov.wales/statistics-and-research/young-people-not-education-employment-training/?lang=cy>

<sup>7</sup> Gyrfa Cymru <http://destinations.careerswales.com/year11Trends.html>

- 3.10 Nododd y gwerthusiad ffurfiannol fod ychydig dros hanner yr ALLau wedi sefydlu systemau adnabod yn gynnar, broceriaeth ac olrhain ar gyfer cyn-16 ac 16-18 oed, tra bod y rhan fwyaf o'r lleill wedi sefydlu rhai o'r prosesau hyn. Er bod cynnydd yn arafach nag y cynlluniwyd yn wreiddiol mewn llawer o achosion, yn gyffredinol, roedd YEPF wedi creu newid sylweddol yn y ffordd yr oedd ALLau yn mynd ati i atal pobl ifanc rhag mynd yn NEET. Daeth y gwerthusiad i'r casgliad hefyd, os nad oedd ALLau wedi gwneud unrhyw gynnydd arwyddocaol yn gweithredu'r YEPF, y gallai hyn fod oherwydd diffyg ysgogiad gan ALLau yn hytrach nag amharodrwydd. Felly, pe byddai anogaeth i weithredu'r YEPF yn cael ei chynnal neu ei gwella, byddai ALLau oedd yn araf yn gweithredu yn dechrau dangos cynnydd.
- 3.11 Ar adeg y gwerthusiad ffurfiannol, roedd nifer fach o'r ALLau heb wneud cynnydd o ran gweithredu'r YEPF. Nid oedd yr ALLau hyn wedi sefydlu trefniadau llywio strategol na phrotocolau rhannu gwybodaeth (ISP). Canfu'r gwerthusiad gysylltiad amlwg rhwng trefniadau strategol a gweithredol yn cael eu sefydlu a chynnydd a wnaed gan ALLau i weithredu'r fframwaith.
- 3.12 Canfu'r gwerthusiad ffurfiannol fod y rhan fwyaf o ALLau wedi gwneud cynnydd o ran gweithgareddau adnabod yn gynnar i leihau nifer a chyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn 16 oed, ac yn gweithredu systemau EI i leihau nifer y bobl 17 a 18 oed sydd yn mynd yn NEET. Fodd bynnag, canfu nad oedd gan unrhyw ALI gynllun clir mewn perthynas â haen cyflogadwyedd y fframwaith.
- 3.13 Nododd y gwerthusiad hefyd y meysydd unigol o weithgaredd oedd yn hanfodol i weithredu'r YEPF yn ddiraffferth. Y prif ffactorau llwyddiant yn y cyd-destun hwn oedd: sefydlu ISP; grwpiau strategol a gweithredol sydd yn gweithio; ymgysylltiad darparwyr; a datblygiad systemau data canolog.
- 3.14 Nododd y gwerthusiad ffurfiannol hefyd fframwaith gwerthuso ar gyfer asesiad effaith llawn, ac argymhell bod gwerthusiad effaith terfynol yn



cael ei gynnal ar ddiwedd 2016/dechrau 2017. Ar hyn o bryd, mae'n dal yn rhy gynnar i gynnal yr asesiad effaith hwn ond mae'r data'n cael ei drafod ymhellach a gellir defnyddio hyn i fesur effaith ym mhennod 14.

#### **4. Asesiad trosolwg o'r cynnydd ers y prif werthusiad ffurfiannol**

4.1 Yn seiliedig ar yr ymchwil a wnaed ar gyfer yr astudiaeth ddilydol hon, mae'r paragraffau canlynol yn rhoi trosolwg o'r cynnydd ers y cyfnod oedd wedi ei gynnwys yn y prif werthusiad ffurfiannol blaenorol. Caiff y cynnydd hwn ei archwilio'n fanylach yng ngweddill yr adroddiad.

4.2 I grynhoi, ar draws ALLau, awgrymodd bron pawb y cyfwelwyd â nhw fod cynnydd wedi bod mewn cyfathrebu a chydgyssylltu rhwng rhanddeiliaid o ganlyniad i YEPF. Yn arbennig, yn astudiaeth achos Gogledd Cymru lle mae ALLau wedi bod yn gweithio'n agos i ddatblygu YEPF. Roedd y gwaith cydgysylltiedig hwn yn cael ei ystyried o fudd i bob partner:

'Mae gennym ni a'n partneriaid bellach ddealltwriaeth well ynghylch pwy yw'r bobl ifanc hyn yr ydym yn eu trafod ac nad ydym yn trafod grŵp homogenaidd o bobl ifanc'

Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu (EPC)

4.3 Nododd llawer o ALLau welliannau yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, gyda chyfanswm ffigurau haen 1 a 2<sup>8</sup> yn gostwng (dangosodd 14 ALI lai yn haen 1 rhwng Medi 2014 a 2015<sup>9</sup>). Roedd llawer o'r farn y gellid priodoli'r rhain, yn rhannol o leiaf, i YEPF. Mewn rhai achosion, amlygodd ALLau fod ffigurau NEET wedi aros yn sefydlog er gwaethaf heriau'n ymwneud â chyllid. Awgrymodd sawl ALI ei fod yn bwysig ystyried cymhlethdod y data. Er enghraifft:

'Mae ALLau wedi gwneud cynnydd sylweddol yn lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET adeg y cyswllt cyntaf, ond eto mae gennych

---

<sup>8</sup> Mae'r model ymgysylltu pum haen yn cael ei ddisgrifio'n gryno yn nhroednodyn<sup>1</sup> ac yn fanylach yng Nghynllun Gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid, a gyhoeddwyd yn 2013 ac sydd ar gael yma; <http://gov.wales/docs/dcells/publications/131007-ye-framework-implementation-plan-cy.pdf>. Mae Haen 1 yn cynnwys pobl ifanc y mae eu statws yn anhysbys, ac mae Haen 2 yn cynnwys pobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau sylweddol a/neu luosog i ymgysylltu.

<sup>9</sup> Cronfa Ddata Genedlaethol Gyrfa Cymru - Newid Medi (Ch3) 14/15 - Medi (Ch3) 15/16. Cyfyngiadau'r data hwn ym Mhennod 14

broblem o hyd o ran y darlun parhaus nad yw'n cael ei gyfleu rhyw  
lawer'

(Rhanddeiliad)

- 4.4 Awgrymodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr cyfweliad ei bod yn rhy  
gynnar i weld effaith lawn YEPF ac mae tystiolaeth anecdotaidd yn  
awgrymu bod pobl ifanc yn elwa ar adnabod yn gynnar ac olrhain  
mwy cadarn.
- 4.5 Ymddengys bod yr amgyffrediad o'r fframwaith yn dal yn gadarnhaol.  
Fodd bynnag, mae ALLau yn gyffredinol yn cael anhawster yn ymdrin  
â gostyngiadau cyllid ac ailstrwythuro sydd wedi bod yn heriol gyda  
chfyngiadau gallu'n effeithio ar gyfathrebu a chydgysylltu mewnol o  
fewn ALLau.

'Y peth allweddol yw parhau â hyn – cael rhywfaint o barhad yng  
nghanol newid mewn mannau eraill'

(EPC)

## **5. Rheoli a gweithredu'r fframwaith**

5.1 Yn yr adran hon rydym yn cyflwyno canfyddiadau am y ffordd y mae ALLau yn rheoli ac yn cydgysylltu'r gwaith o weithredu'r YEPP ac yn ystyried yr hyn sy'n gweithio'n dda a beth yw'r heriau. Rydym yn tynnu ar gyfweiliadau gyda staff gweithredu a rhanddeiliaid, yn ogystal â chanfyddiadau o'r arolwg.

*Beth sydd yn ei le*

5.2 Ers gwerthusiad ffurfiannol 2014, mae pob un ond un o'r ALLau wedi cynnal eu trefniadau strategol i oruchwylio YEPP. Mae pob un wedi penodi Uwch Swyddog Atebol (SAO), y rhan fwyaf ohonynt hefyd yn eu swyddi adeg y gwerthusiad blaenorol. Fel o'r blaen, mae tua hanner yr SAO yn benaethiaid gwasanaeth dros addysg, ieuentid neu ddysgu gydol oes. Mewn achosion eraill, mae cyfrifoldeb dros yr YEPP ar lefel uwch, gyda'r prif weithredwr neu'r dirprwy brif weithredwr. Mewn un achos, mae rôl yr SAO wedi dod o fewn yr adran hamdden a thwristiaeth yn yr ALI. Mesur dros dro yw hyn fodd bynnag.

5.3 Ym mhob un ond un ALI, mae grŵp llywio strategol wedi ei sefydlu ac mae wedi parhau i oruchwylio'r fframwaith. Mae'n dal yn wir fod y grŵp hwn yn cael ei gadeirio gan yr SAO neu, mewn rhai achosion, mae'r cyfrifoldeb yn cael ei ddirprwyo i uwch reolwr arall neu'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu (EPC). Roedd y grwpiau strategol yn cynnwys rhanddeiliaid o fewn yr ALI (addysg, timau troseddu ieuentid) a chynrychiolydd coleg, cynrychiolydd ysgol a Gyrfa Cymru. Mae hyn yn dangos ymrwymiad gan y rhan fwyaf o'r ALLau i gynnal cyfranogiad uwch yn YEPP.

5.4 Ymddengys bod y rhan fwyaf o'r grwpiau strategol yn parhau i fonitro graddau cyflawni'r prif ddangosydd perfformiad o weld gostyngiad yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn 16-18 oed a 19-24 oed. Mae tua chwarter yn defnyddio eu grwpiau strategol i osod targedau lefel uchel o fewn yr ALI. Mae tua hanner yn gosod targedau penodol yn ymwneud ag elfennau o'r YEPP, sy'n cael

eu gweithredu gan yr EPC a grwpiau gweithredol. Ym mhob grŵp strategol bron, mae data haenau Gyrfa Cymru yn cael ei ddefnyddio i fonitro cynnydd y fframwaith. Fodd bynnag, mae cadernid y dadansoddiad hwn yn amrywio rhwng ALLau. Nododd sawl ALI fod ansawdd y data'n golygu ei fod yn cael ei ddefnyddio fel offeryn i lywio trafodaeth yn hytrach na monitro cynnydd yn uniongyrchol. Ceir trafodaeth fanylach am hyn ym Mhennod 14.

*Beth sy'n gweithio'n dda*

5.5 Mae'r arolwg rhanddeiliaid yn dangos amgyffrediad cadarnhaol ar y cyfan o arweinyddiaeth yr agenda ymgysylltu a datblygu ieuenctid gan ALLau, er bod yr ymateb ychydig yn fwy pwyllog na'r ffigurau uchel iawn yn yr arolwg blaenorol<sup>10</sup>. Canfu fod:

- 78 y cant (336 o'r 433 o ymatebwyr) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod arweinyddiaeth effeithiol o agenda YEPF gan yr ALI;
- Cyfran yr ymatebwyr oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r datganiad am arweinyddiaeth effeithiol yn 16 y cant (71 o ymatebwyr); a bod
- 6 y cant o'r ymatebwyr wedi dweud nad oeddent yn gwybod am arweinyddiaeth yr agenda ymgysylltu a datblygu ieuenctid gan yr awdurdod lleol.

5.6 Mae'r arolwg rhanddeiliaid yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (76 y cant o'r 434 o ymatebwyr) yn credu bod grwpiau strategol yn llywio gwasanaethau a mentrau sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu a datblygu ieuenctid yn effeithiol. Roedd nifer debyg (71 y cant o'r 433 o ymatebwyr) yn credu bod pob partner strategol allweddol yn gweithio'n gydweithredol i gefnogi ymgysylltu a datblygu ieuenctid.

5.7 Roedd rheoleidd-dra cyfarfodydd y grŵp llywio yn cael ei ystyried yn briodol ymysg y rhan fwyaf o ALLau. Awgrymodd tua dwy ran o dair bod rheoleidd-dra'r cyfarfodydd wedi lleihau dros y flwyddyn

---

<sup>10</sup> Mae'r ymateb mwy pwyllog hwn yn rhannol oherwydd gwahaniaethau yn y ffrâm samplu ar gyfer yr arolwg yn y brif astudiaeth werthuso ffurfiannol. Gweler paragraff 2.44.

ddiwethaf. Roedd hyn yn adlewyrchu llai o angen am arweiniad strategol ar gyfer yr ALLau hynny oedd yn teimlo eu bod yn sefydlog o ran gweithredu YEPF. Roedd lleihau'r rheoleidd-dra mewn rhai achosion yn cael ei ystyried yn bwysig i gynnal presenoldeb pan oedd gallu'r aelodau i fynychu'n gyfyngedig. Fodd bynnag, roedd tua thraean o'r ALLau yn dal i gael anhawster yn cynnal presenoldeb mewn cyfarfodydd llywio.

- 5.8 Roedd yr holl ALLau bron yn teimlo bod cynrychiolaeth ar y bwrdd hwn yn briodol ac roedd yr aelodau yn cynnwys ystod ddigon eang o randdeiliaid. Roedd hanner o leiaf wedi ehangu eu haelodaeth yn y flwyddyn ddiwethaf, er enghraifft, i gynnwys mwy o gynrychiolwyr o'r trydydd sector neu JCP. Nododd nifer fach o'r ALLau fod sefydliadau nad oeddent wedi cael eu cynnwys yn y fframwaith yn flaenorol wedi cysylltu â'r ALI ynghylch cymryd rhan mewn grwpiau llywio. Roedd hyn yn cael ei weld fel tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed o ran codi proffil y fframwaith.

#### *Heriau*

- 5.9 Mae lefel uchel a safle'r SAO yn yr ALI yn cael ei ystyried yn rhywbeth sydd yn dylanwadu ar eu cyfranogiad yn y fframwaith. Mewn llawer o ALLau, roedd ymrwymiad ar lefel uwch i'w weld yn gryf, gyda'r EPC yn teimlo bod cefnogaeth i'w rôl. Fodd bynnag, roedd grŵp o ALLau lle'r oedd amgyffrediad o ddiffyg ymrwymiad ar lefel uwch i'r fframwaith yn dal yn rhwystr. Yn yr achosion hyn, nid oedd cynnydd y fframwaith yn cael ei fonitro rhyw lawer gan staff uwch yn yr ALI.
- 5.10 Roedd cynrychiolaeth strategol yn cael ei hystyried yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, nodwyd mewn tua chwarter yr ALLau y byddai mwy o gynrychiolaeth o faes tai, y trydydd sector neu adrannau eraill yr ALI, yn arbennig Cyfiawnder Ieuenctid a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ddymunol. Roedd ymgysylltu'r trydydd sector hefyd yn cael ei ystyried yn heriol.
- 5.11 Mewn rhai achosion, mae monitro'n dal yn weithredol ac yn canolbwyntio ar weithgareddau, heb drosolwg strategol clir o gynnydd

y fframwaith yn gyffredinol, ei ganlyniadau na'i effaith. Roedd hyn yn tueddu i fod yn amlwg yn yr ALlau hynny oedd yn dal i ddatblygu agweddau gweithredol y fframwaith e.e. systemau adnabod yn gynnar.

- 5.12 Nododd y prif adroddiad gwerthuso ffurfiannol rai heriau'n ymwneud â chyllid ALI ac ailstrwythuro yn dilyn hynny. Roedd yn dal yn wir fod rhai y cyfwelwyd â nhw'n teimlo bod hyn yn cael effaith ar lefel ymrwymiad uwch aelodau staff nad oeddent yn ystyried YEPF fel blaenoriaeth. Yn bennaf, fodd bynnag, mae amharu ar bresenoldeb a threfniadau llywodraethu wedi gwella ers y gwerthusiad blaenorol.

## 6. Trefniadau gweithredol

*Beth sydd wedi ei sefydlu*

- 6.1 Mae pob ALLau yn parhau i gyflogi EPC i gydgyssylltu'r gwaith o gyflwyno'r fframwaith. Roedd y rhan fwyaf o'r EPC wedi parhau yn eu swyddi ers y gwerthusiad blaenorol. Fodd bynnag, roedd nifer fach o EPC newydd mewn swydd, gyda'r olaf wedi dechrau ar y swydd lai na 6 mis yn ôl. I'r rheiny lle'r oedd yr ALLau wedi penodi mwy nag un EPC ac yn rhannu'r rôl, dyma oedd y trefniant presennol o hyd.
- 6.2 Mae EPC yn dal yn gyfrifol am bob agwedd ar y fframwaith, er bod hefyd swyddog data, naill ai'n rhan-amser neu amser llawn, mewn tri awdurdod lleol o leiaf, sy'n gyfrifol am ddadansoddi'r holl ddata sy'n ymwneud â YEPF.
- 6.3 Nododd tua dwy ran o dair o'r ALLau fod rôl yr EPC wedi ymestyn dros y flwyddyn ddiwethaf o ganlyniad i ddatblygu'r fframwaith ymhellach gyda mwy o randdeiliaid i ymgysylltu. Soniodd yr EPC hefyd eu bod wedi bod yn gysylltiedig â cheisiadau ESF<sup>11</sup> ac, mewn rhai achosion, bod hyn wedi rhoi pwysau ar eu hymrwymadau eraill yn ymwneud â YEPF.
- 6.4 Mae pob ALI wedi sefydlu grŵp gweithredol. Roedd tua hanner wedi esblygu naill ai gyfansoddiad y grŵp hwn neu ffocws y cyfarfodydd; ond, yn gyffredinol, mae'r trefniadau'n sefydlog bellach. Caiff y grŵp hwn fel arfer ei gadeirio gan yr EPC ac fe'i defnyddir fel arfer i fynd trwy eu data haen, gan wirio statws unigolion, rhannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau yn ymwneud â threfniadau gwaith arweiniol. Mae rhai yn canolbwyntio ar ateb targedau penodol yn ymwneud â datblygu'r fframwaith sydd wedi eu gosod gan eu grŵp strategol cyfatebol.
- 6.5 Awgrymodd ymatebwyr cyfweiliadau fod ffocws gwaith gweithredol ALLau yn dal yn dibynnu ar anghenion a blaenoriaethau unigol yr

---

<sup>11</sup> Mae ceisiadau Cronfa Gymdeithasol Ewrop wedi cael eu hysgrifennu yn ystod y cyfnod gwerthuso gydag ALLau yn gwneud cais am gyllid ar gyfer prosiectau sy'n dod o dan gylch gorchwyl YEPF.



ALLau. Roedd llawer yn dal i ganolbwyntio ar adnabod yn gynnar, olrhain a broceriaeth ond roedd rhai wedi datblygu trefniadau sydd yn cynnwys y fframwaith cyfan. Yn gyffredinol, mae cyfathrebu'n ymwneud â'r meysydd hyn o'r fframwaith wedi eu sefydlu'n dda (gyda rhai eithriadau).

*Beth sy'n gweithio'n dda*

- 6.6 Roedd swyddogaeth EPC yn gyffredinol yn cael ei hystyried yn hanfodol i elfennau strategol, monitro a gweithredol y fframwaith, er bod rhai rhanddeiliaid yn poeni bod y rôl yn feichus i un unigolyn.
- 6.7 Mewn ALLau gyda swyddogion data, roedd eu cyfranogiad yn cael ei ystyried yn allweddol i ddatblygu gweithrediad y fframwaith trwy ddarparu dadansoddiad mwy gwybodus o ddata i'w roi i grwpiau gweithredol a strategol.
- 6.8 Awgrymodd EPC a phobl eraill y cyfwelwyd â nhw fod gan EPC, os ydynt wedi gweithio gyda grŵp penodol o randdeiliaid a bod ganddynt berthynas gyda nhw yn barod (e.e. cyn-athrawon) eu bod wedi gallu ymgysylltu'r grwpiau hyn yn well, gan ddefnyddio eu gwybodaeth flaenorol i ddatblygu'r fframwaith. Mewn nifer fach o achosion, nodwyd y gallai arbenigedd rhy benodol fod wedi golygu bod rhai rhanddeiliaid wedi cael eu hymgysylltu'n llai effeithiol. Ystyriwyd bod hyn o ganlyniad i'r ffaith bod EPC yn gweithio gyda'r rhanddeiliaid hynny yr oeddent fwyaf cyfarwydd â nhw mewn swyddi blaenorol.
- 6.9 Yn y rhan fwyaf o ALLau, mae rhannu data a gwybodaeth wedi gwella. Mae cytundebau 'Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru' (WASPI) oedd yn weddill wedi cael eu datrys yn bennaf a chafwyd mwy o ymrwymiad gan y partneriaid strategol priodol. Roedd y rhain yn cynnwys cytundebau rhwng adrannau ALI, Gyrfa Cymru a phartneriaid cyflenwi eraill fel ysgolion, colegau a sefydliadau'r sector gwirfoddol. Ystyriwyd bod hyn yn hwyluso sgwrs agored mewn cyfarfodydd gweithredol:

'Roedd pob un allan yn gwneud ei beth ei hun, roedd pawb yn gweithio'n galed; ond mae'r fframwaith wedi cyflwyno strwythur

ffurfiol lle gall pobl weld yn glir beth yw eu rôl, beth sydd angen ei wneud ac mae dyma'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl ifanc.'

(EPC)

### *Heriau*

- 6.10 Mae tua chwarter yr ALLau yn dal i wynebu problemau yn ymwneud â Phrotocolau Rhannu Gwybodaeth (ISP). Nid yw un ALI ar hyn o bryd yn derbyn yr holl ddata haen gan Gyrfa Cymru ac, mewn un ALI o leiaf, mae trefnu ISP gyda sefydliadau sector gwirfoddol llai yn dal yn her.
- 6.11 Mewn nifer fach o ALLau, roedd diffyg cefnogaeth strategol ar lefel uwch wedi effeithio ar drefniadau gweithredol sy'n ei gwneud hi'n anoddach i'r rheiny ar lawr gwlad ddylanwadu ar y berthynas sydd ei hangen rhwng sefydliadau i gasglu data a chydgysylltu darpariaeth. Mewn un achos, roedd cyfnod pan nad oedd gan ALI EPC ac roedd hyn wedi arafu'r broses o weithredu'r fframwaith. Mae EPC newydd yn ei le bellach.
- 6.12 Mewn hanner yr ALI o leiaf, roedd pryder uniongyrchol, heb gymorth ariannol pellach gan Lywodraeth Cymru, y gallai rôl yr EPC fod mewn perygl. Roedd nifer fach o ALLau yn teimlo, heb y cyllid, na fyddai rôl EPC yn y dyfodol. Heb y rôl, roedd amheuaeth y byddai'r fframwaith yn dal ar agenda ALLau.
- 6.13 Nododd nifer fawr o ALLau bod ansawdd y data a ddefnyddir mewn cyfarfodydd gweithredol yn amrywiol a bod hyn yn effeithio ar effeithlonrwydd y grwpiau gweithredol. Ceir mwy o drafodaeth am hyn ym mhennod 14.

## **Gweithredu chwe chydram y Fframwaith**

Yn yr adran hon, rydym yn cyflwyno canfyddiadau am y ffordd y mae ALLau yn gweithredu chwe chydram yr YEPF: adnabod yn gynnar, broceriaeth, olrhain, darpariaeth, cyflogadwyedd ac atebolrwydd. Fel yr adran flaenorol, rydym yn defnyddio cyfweiliadau gyda staff gweithredu, rhanddeiliaid a chanlyniadau arolwg.

### **7. Adnabod yn Gynnar**

*Beth sy'n digwydd*

7.1 Mae'r gydran hon o'r YEPF yn dal yn brif ffocws i'r rhan fwyaf o'r ALLau. Awgrymodd y rheiny y cyfwelwyd â nhw fod systemau cyn-16 bellach wedi'u datblygu'n dda, gyda mwy o amrywiad yn amlwg yn y cyfnod gweithredu ôl-16.

(a) Statws cyn-16

7.2 Mae pob ALI bellach wedi sefydlu system adnabod yn gynnar, sy'n cael ei defnyddio ar gyfer myfyrwyr blwyddyn 10 ac 11. Cafwyd cynnydd o ran gwreiddio systemau adnabod yn gynnar sydd eisoes yn eu lle yn yr ALLau hynny oedd wedi sefydlu systemau yn ystod y gwerthusiad diwethaf. Awgrymodd y rheiny y cyfwelwyd â nhw fod tua chwarter yr ALLau hynny oedd â systemau EI yn barod wedi eu hymestyn i gynnwys grwpiau oedran iau. Awgrymodd dros chwarter ymatebwyr ALI eu bod wedi adolygu neu ddiwygio eu model presennol er mwyn sicrhau ei fod yn adnabod pobl ifanc mewn perygl yn fwy effeithiol.

7.3 Mae dwy ran o dair o ALLau wedi sefydlu system gyson, safonol. Ceir amrywiad, fodd bynnag, yn yr amser y mae'r rhain wedi bod yn weithredol, yn amrywio ers cyn i YEPF ddechrau ym mis Medi 2013 i'r rheiny sy'n cynnal peilot o fodel newydd ar hyn o bryd. Mewn traean o ALLau o leiaf, awgrymodd y rheiny y cyfwelwyd â nhw fod ysgolion yn casglu data adnabod yn gynnar, er nad yw hyn o reidrwydd yn cael ei gyfuno i wneud un set ddata a ddefnyddir gan yr ALI. Yn lle hynny, mae ysgolion yn darparu setiau data unigol, a allai ddefnyddio

dangosyddion gwahanol. Yna caiff y rhain eu defnyddio i hwyluso trafodaethau am bobl ifanc unigol mewn cyfarfodydd gweithredol.

- 7.4 O'r 39 o ysgolion a ymatebodd i'r arolwg ar-lein, roedd bron naw allan o ddeg yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn cymryd rhan mewn proses adnabod yn gynnar cyn-16 ar y cyd â'u ALI. Fodd bynnag, dim ond 58 y cant o'r holl ymatebwyr oedd yn credu bod hyn yn wir am bob ysgol. Yn arbennig, nid oedd 29 y cant o'r ymatebwyr yn gwybod am y cydgysylltu rhwng ysgolion a'r ALI o ran adnabod yn gynnar cyn-16. Mae hyn yn cyd-fynd â'r cyfweiliadau ansoddol, a awgrymodd fod nifer fawr o ysgolion yn cymryd rhan ond bod anawsterau o hyd gydag ysgolion unigol.
- 7.5 Awgrymodd y rheiny y cyfwelwyd â nhw, lle'r oedd ALLau wedi sefydlu systemau adnabod yn gynnar, eu bod yn casglu gwybodaeth yn seiliedig ar ddangosyddion craidd ymddygiad, cyrhaeddiad a phresenoldeb. Awgrymodd tua chwarter yr ALLau, yn y flwyddyn ddiwethaf, eu bod wedi ymestyn ystod y dangosyddion a ddefnyddir yn eu systemau adnabod yn gynnar. Mewn llawer o achosion, daeth y penderfyniad i ymestyn ystod y dangosyddion o ganlyniad i drafodaethau yn ymwneud â dyrannu pobl ifanc i bob categori risg. Roedd y dangosyddion newydd yn aml yn cynnwys dangosyddion ymddygiadol mwy cynnil, fel lefel y cymorth emosiynol oedd ei angen.
- 7.6 Roedd 76 y cant (208) o'r ymatebwyr i'r arolwg rhanddeiliaid yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr ALI lle maent yn gweithio yn cydgysylltu prosesau adnabod yn gynnar cyn-16 yn effeithiol. Roedd yr arolwg hefyd yn dangos:
- Bod y mwyafrif, 70 y cant (188), o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf i'r ALI ei gwneud yn glir pwy oedd yn gyfrifol am elfennau gwahanol o adnabod yn gynnar cyn-16;
  - Yn ogystal, bod 71 y cant (190) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y partneriaid cywir yn cymryd rhan mewn prosesau adnabod yn gynnar cyn-16.

(b) Statws ôl-16

- 7.7 Awgrymodd y rheiny y cyfwelwyd â nhw fod statws adnabod yn gynnar ôl-16 wedi datblygu yn chwarter yr ALLau o leiaf ers y gwerthuso ffurfiannol. Roedd ALLau oedd wedi sefydlu eu systemau adnabod yn gynnar cyn-16 yn flaenorol bellach wedi dechrau ymestyn adnabod yn gynnar i ôl-16. Ym mhob ALI ond un, mae data haen Gyrfa Cymru (pob un o'r 5 haen) yn cael ei rannu gyda'r ALI. Mewn rhai achosion, mae hwn hefyd yn cael ei rannu gyda phartneriaid eraill at ddibenion trawsgyfeirio. Yn gyffredinol, mae'r ALI yn gyfrifol am gydgylltu'r gwaith o rannu data.
- 7.8 Mewn un ALI o leiaf, mae Gyrfa Cymru yn cymryd cyfrifoldeb dros gasglu gwybodaeth gan ddarparwyr ôl-16 er mwyn diweddarau eu data haen heb fewnbwn gan yr ALI. Fodd bynnag, yn gyffredinol awgrymodd ymatebwyr ALLau a Gyrfa Cymru eu bod yn derbyn data gan ddarparwyr, a gaiff ei ddefnyddio i drawsgyfeirio'r data haen gan sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ar gael yn cael ei defnyddio i ddiweddarau lleoliad a statws pobl ifanc. Mae Gyrfa Cymru'n parhau i ddefnyddio eu gwaith partneriaeth gyda cholegau i hwyluso rhannu gwybodaeth.
- 7.9 Yn hanner yr ALLau o leiaf, awgrymwyd gan EPC bod rhannu gwybodaeth ymysg colegau /darparwyr WBL a'r ALI yn dda, hyd yn oed mewn achosion lle nad oedd Gyrfa Cymru'n uniongyrchol gysylltiedig â'r darparwr. Mewn rhai achosion, mae darparwyr wedi addasu eu systemau mewnol presennol i gyd-fynd â system casglu data'r ALI. Fodd bynnag, mewn rhyw ddwy ran o dair o'r achosion, roedd darparwyr ôl-16 yn parhau i ddefnyddio dulliau unigol a gwahanol o gasglu data. Caiff y rhain eu defnyddio mewn cyfarfodydd ymarferwyr i ddiweddarau data haen ALI/Gyrfa Cymru. Yn y cyfarfodydd gweithredol hyn y mae Gyrfa Cymru ac ALLau yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y rheiny sydd mewn perygl o ymddieithrio. Yn chwarter yr ALLau o leiaf, roedd problemau'n parhau o ran ymgysylltu rhai darparwyr WBL a cholegau i ddarparu data.
- 7.10 Roedd ansawdd y data gan golegau yn cael ei ystyried yn amrywiol gan ymatebwyr cyfweiliad ar draws ALLau, o ganlyniad i brosesau sy'n

benodol i ddarparwyr. Mewn un ALI, nodwyd bod data weithiau'n araf yn cyrraedd yr ALI ac y gallai hyn fod o ganlyniad i faint a chymhlethdod systemau adnabod yn gynnar mewnol colegau.

- 7.11 Roedd rheoleidd-dra rhannu data'n cael ei ystyried i fod yn dda gan ymatebwyr cyfweiliad, ar draws y rhan fwyaf o'r ALLau. Mewn rhai achosion, roedd data colegau'n cael ei ddiweddarau'n ddyddiol bron; ond, mewn un ALI o leiaf, roedd pryderon bod oedi yn derbyn diweddariadau amserol yn rhwystro adnabod yn gynnar.
- 7.12 Dangosodd yr arolwg rhanddeiliaid fod 75 y cant (190 o'r 255) o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr ALI yn cydlynu prosesau adnabod yn gynnar ar gyfer pobl 16-18 oed yn effeithiol. Roedd hefyd yn dangos:
- bod 66 y cant o'r 254 o ymatebwyr (167) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y partneriaid iawn i gyd yn cymryd rhan mewn prosesau adnabod yn gynnar ar gyfer pobl 16-18 oed.
  - roedd 34 y cant o'r 255 o ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf bod y partneriaid iawn i gyd yn cymryd rhan yn y broses adnabod yn gynnar ar gyfer pobl ifanc 19 oed ac yn hŷn. Roedd yr un ganran o ymatebwyr yn anwybodus o ran pwy oedd y partneriaid oedd yn cymryd rhan yn y broses adnabod yn gynnar 19+. Mae hyn yn cyd-fynd â'r ffaith fod y rheiny y cyfwelwyd â nhw wedi nodi nad yw'r grŵp oedran hwn wedi cael ei ystyried yn llawn eto.

*Beth sy'n gweithio'n dda*

*(a) Cyn-16*

- 7.13 Ymddengys bod adnabod yn gynnar cyn-16 bellach yn ymarfer sydd wedi ei sefydlu yn y rhan fwyaf o ALLau. Mae ysgolion wedi cael eu hymgysylltu'n effeithiol, ac yn gweld buddion ymgysylltu ag ef. Mae ysgolion yn rhoi diweddariadau cywir ac amserol i ALLau i raddau helaeth:

‘Yn y gorffennol byddai gennym berthynas un i un dda gyda rhai o’r ysgolion, a fyddai’n dweud pethau wrthym er mwyn sicrhau bod gennym ddarlun mwy cyfannol o’r hyn oedd yn digwydd ym mywyd person ifanc, ond bellach mae’r wybodaeth honno gennym yn ganolog, ac nid ydym yn gorfod dibynnu ar ysgolion unigol’

(EPC)

- 7.14 Awgrymodd y rheiny y cyfwelwyd â nhw fod ychwanegu dangosyddion i’r systemau adnabod yn gynnar wedi helpu i ddyrannu pobl ifanc yn fwy cywir i’r haen neu’r raddfa RAG gywir. Mae ysgolion wedi bod yn hyblyg yn gwneud y newidiadau hyn ac, mewn llawer o achosion, roeddent eisoes yn casglu gwybodaeth ychwanegol trwy eu systemau mewnol eu hunain.
- 7.15 Mae rhai ALLau wedi cysoni eu systemau cyn ac ôl-16 fel bod y ddwy system yn defnyddio model haen Gyrfu Cymru i adnabod pobl ifanc sydd mewn perygl. Roedd hyn yn cael ei ystyried i fod yn darparu strwythur clir a hwyluso pontio rhwng y cyfnod cyn ac ôl-16.
- 7.16 Mae trafod systemau adnabod yn gynnar mewn cyfarfodydd gweithredol a strategol yn golygu bod y gwaith o fonitro effeithiolrwydd systemau adnabod yn gynnar yn gyffredinol wedi digwydd yn rheolaidd. O ganlyniad, mae ALLau wedi gallu addasu’r gwaith o gasglu data yn ôl yr angen.
- 7.17 Mae dull rhanbarthol o gydgysylltu bellach ar waith ar draws Gogledd Cymru. Mae mwy o wybodaeth am fuddion y dull partneriaeth hwn ar gael ym mhennod 13.

*Beth sy’n gweithio’n dda*

*(b) Ôl-16*

- 7.18 Cafwyd cynnydd gyda systemau adnabod yn gynnar ôl-16 ers y gwerthusiad blaenorol. Mae ISP oedd yn weddill yn ystod y gwerthusiad blaenorol bellach wedi eu sefydlu’n bennaf rhwng Gyrfu Cymru a darparwyr eraill. Mae hyn wedi galluogi deialog agored ac i ddata gael ei rannu gyda’r ALI mewn setiau data canolog. Caiff y data

ei fonitro yn gyffredinol gan Gyrfa Cymru a'r ALI, sydd yn hwyluso'r gwaith o drawsgyfeirio data gan ddarparwyr ôl-16.

- 7.19 Nododd staff ALI a Gyrfa Cymru lawer mwy o ymrwymiad gan ddarparwyr WBL o ran rhannu gwybodaeth. Ystyriwyd bod hyn, yn rhannol, o ganlyniad i'r ffaith bod EPC yn gweithio'n benodol gyda'r grŵp yma o ddarparwyr, yn ogystal â gwaith a wneir gan NTFW. Fodd bynnag, nododd rhai ALLau fod ymgysylltu'r grŵp yma'n dal yn her.

*Heriau*

*(a) Cyn-16*

- 7.20 Er bod ymgysylltu ysgolion yn cael ei ystyried yn gadarnhaol gan EPC, roedd eithriadau ar draws ALLau lle nad oedd ysgolion yn cael eu cynrychioli neu nad oedd systemau mewnol yn cael eu hystyried yn ddibynadwy. Mae ymrwymiad rhai ysgolion yn dal yn her. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ALLau yn ymwybodol o rwystrau penodol mewn ysgolion ac yn gyffredinol yn cymryd camau i'w goresgyn. Yn aml, cafodd gallu'r ALI ac ysgolion yn fewnol ei nodi fel y prif reswm dros amrywiad o ran ymrwymiad. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos ALLau gyda nifer fawr o ysgolion.

- 7.21 Mewn achosion lle nad yw data adnabod yn gynnar yn cael ei gasglu fel mater o drefn mewn ysgolion, awgrymodd EPC fod y wybodaeth yn dibynnu ar y berthynas rhwng yr ALI ac aelodau unigol o staff mewn ysgolion. Nodwyd bod hyn yn amrywio'n sylweddol o fewn rhai ALLau.

*(b) Ôl-16*

- 7.22 Ymddengys bod gan y rhan fwyaf o ddarparwyr ôl-16 eu systemau adnabod yn gynnar eu hunain, er i'r ymatebwyr y cyfwelwyd â nhw a safbwyntiau ymchwilwyr awgrymu bod cadernid y rhain yn amrywio. Mae rhwystrau o hyd mewn rhai ALLau o ran cyfathrebu rhwng EPC, Gyrfa Cymru a darparwyr ôl-16. Mewn achosion lle nad yr EPC yw deiliad y data, nid oedd ymwybyddiaeth bob amser yn yr ALI ynghylch a oedd y data wedi ei ddiweddarau'n llawn ac a oedd wedi ei drawsgyfeirio â data darparwr ôl-16 penodol.



7.23 Nododd colegau a darparwyr WBL mawr sy'n gweithio gydag ALlau lluosog y gall gorfod bodloni gofynion systemau adnabod yn gynnar (a broceriaeth ac olrhain) sawl ALlau gwahanol fod yn heriol. Mae colegau mawr wedi dyrannu arweinwyr gwahanol ar gyfer bob ALI. Er yr ystyrir bod hyn yn gweithio'n dda, mae'n rhoi pwysau ar adnoddau. Nododd darparwyr mai'r prif heriau yw dod o hyd i amser i fynychu cyfarfodydd llywio/gweithredol lluosog ac yn deall y gwahaniaethau yn nulliau pob ALI.

## 8. Broceriaeth

### *Beth sy'n digwydd*

- 8.1 Mae trefniadau gwaith arweiniol yn dal ar waith ar draws pob ALLau. Fodd bynnag, nododd y rheiny y cyfwelwyd â nhw fod amrywiad o hyd o ran y derminoleg a ddefnyddir ar draws ALLau a rhwng darparwyr. Nododd y rhan fwyaf eu bod yn parhau â'u model blaenorol ar gyfer dyrannu gweithwyr arweiniol. Gwneir hyn fel arfer trwy drafodaethau yn y grwpiau gweithredol ac, yn hynny o beth, mae'n gyfyngedig i'r sefydliadau hynny sy'n mynychu'r grwpiau hynny. Nodwyd, os oes grwpiau gweithredol wedi ehangu, bod hyn wedi gwella cydgysylltu gweithwyr arweiniol ymysg rhanddeiliaid, yn ogystal â'r cynnig sydd ar gael i bobl ifanc. Roedd cynrychiolaeth colegau a darparwyr WBL mewn grwpiau gweithredol yn cael ei ystyried i fod wedi arwain at y ffaith bod y sefydliadau hyn yn derbyn rôl gweithiwr arweiniol yn gynyddol. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn gam cadarnhaol, gyda gweithwyr arweiniol yn ddelfrydol yn weithwyr sydd â'r cyswllt mwyaf â'r bobl ifanc.
- 8.2 Yn gyffredinol, caiff gwaith arweiniol ei drefnu gan haenau Gyrfa Cymru. Haen 1 a 2 ar y cyfan yw cyfrifoldeb y Gwasanaethau Cymdeithasol/gweithwyr allgymorth ALI. Mae Haen 3 yn gyffredinol gyda Gyrfa Cymru; tra bod haenau 4 a 5 fel arfer yn cael eu trin gan ysgolion a cholegau. Mae gan ALLau safbwyntiau gwahanol, a nodwyd trwy gymhariaeth ymchwilwyr a'r hyn o nodwyd gan y rheiny gafodd gyfweiliad, ynghylch y ffordd orau o reoli pontio rhwng haenau. Mae'n well gan rai ALLau gadw un gweithiwr arweiniol yr holl amser, tra bod eraill yn dewis newid y gweithiwr arweiniol wrth i bobl ifanc symud trwy'r haenau. Mae'r trafodaethau'n ymwneud ag arfer gorau'n parhau o fewn ALLau.
- 8.3 Mae adnabod pobl ifanc haen 1 yn her i bob ALI. Yn gyffredinol, awgrymodd y rheiny y cyfwelwyd â nhw mai Gwasanaethau Cymdeithasol/gweithwyr allgymorth sy'n gyfrifol am adnabod y grŵp hwn. Maent yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau, yn bennaf yn ymweld

â'u cartrefi, er mwyn gwneud cyswllt â haen 1. Roedd un ALI yn defnyddio mynediad i ddata budd-daliadau lles i nodi unigolion haen 1 nad oes gan Gyrfa Cymru wybodaeth amdanynt. Roedd hyn yn cael ei ystyried gan yr EPC fel ffordd greadigol o adnabod y grŵp.

8.4 Yn gyffredinol, mae'n dal yn ymddangos nad yw ALLau wedi datblygu cynlluniau ar gyfer rheoli achosion yn llawn. Mae hyn yn cynnwys:

- pryd y dylid tynnu cymorth gweithiwr arweiniol yn ôl;
- cynlluniau ar gyfer tynnu'n ôl;
- baich achosion priodol ar gyfer gweithwyr arwain;
- prosesau ar gyfer asesu effeithiolrwydd gwaith arweiniol ac unrhyw ddarpariaeth sy'n cael ei frocera ar gyfer person ifanc; a'r
- fformat mwyaf priodol i weithwyr arweiniol roi adborth i EPC.

Mewn dau ALLau o leiaf, fodd bynnag, roedd dogfennau canllaw wedi cael eu hysgrifennu i roi arweiniad i randdeiliaid yn ymwneud â dyrannu gweithiwr arweiniol. Roedd pawb y cyfwelwyd â nhw yn cydnabod bod cynnig cyson, ond hyblyg, o waith arweiniol a broceriaeth yn gydran allweddol o'r YEFP.

8.5 Yn y rhan fwyaf o ALLau, roedd gweithwyr arweiniol yn cael eu dyrannu'n benodol i bobl ifanc, er mewn un ALI o leiaf, nid oedd gweithwyr arweiniol bob amser yn ymwybodol eu bod yn mynd i dderbyn y rôl hon. Roedd hyn o ganlyniad i bryderon gan EPC y byddai staff yn ystyried y rôl fel un 'ar ben' eu cyfrifoldebau eraill o ddydd i ddydd. O ganlyniad, mae unigolion sy'n cyflawni rôl y gweithiwr arweiniol heb wybod eu bod yn derbyn y rôl yn swyddogol.

8.6 Awgrymodd y rheiny y cyfwelwyd â nhw fod dyraniadau gweithwyr arweiniol yn gyffredinol yn cael eu penderfynu ar sail ad-hoc o fewn grwpiau gweithredol. Mae llawer o'r grwpiau hyn wedi mynd trwy newid yn y flwyddyn ddiwethaf, ond maent bellach yn eu lle ac yn hwyluso trafodaethau gweithwyr arweiniol. Soniodd un ALI o leiaf y byddai newidiadau parhaus yn debygol yn ymwneud â'i grŵp

gweithredol, gyda'r posibilrwydd o greu grwpiau gweithredol cyn ac ôl-16 ar wahân.

- 8.7 Dangosodd yr arolwg rhanddeiliaid fod 69 y cant o'r 178 o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod yr ALI yn cydgysylltu prosesau ar gyfer broceriaeth cyn-16 yn effeithiol
- 8.8 Roedd canran debyg o ymatebwyr (71 y cant, 137 o'r 194 o ymatebwyr) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr ALI yn cydgysylltu prosesau ar gyfer broceriaeth 16-18 yn effeithiol. Fodd bynnag, dim ond hanner y gyfran hon oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod hyn yr un peth ar gyfer pobl ifanc 19+ (35 y cant, 68 o'r 192 o unigolion).
- 8.9 Ar gyfer pobl 16-18 oed, roedd 76 y cant o'r ymatebwyr (147 o'r 194 o ymatebwyr) yn cytuno bod gan yr ALI fecanweithiau i helpu partneriaid i rannu gwybodaeth yn effeithiol am bobl ifanc yn y garfan hon er mwyn sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei frocera.
- 8.10 Dangosodd yr arolwg rhanddeiliaid fod 63 y cant i gyd (112 allan o 195) o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr ALI yn glir am y ffordd y dylid dyrannu gweithwyr arweiniol (neu swyddogaeth debyg) i bobl ifanc o dan 16 oed.
- 8.11 Er gwaethaf y cynnydd araf cychwynnol gyda broceriaeth ôl-16, mae'r arolwg rhanddeiliaid yn dangos bod canran uchel o ymatebwyr (70 y cant o'r 195 o ymatebwyr) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr ALI wedi egluro sut y dylid dyrannu gweithwyr arweiniol (neu swyddogaeth debyg) i bobl ifanc 16-18 oed. Dim ond 40 y cant oedd yn credu bod yr un peth yn wir am y trefniadau 19+.
- 8.12 Ar draws y rhan fwyaf o ALLau, nid oes unrhyw ymarfer wedi bod i gasglu adborth gan, na cheisio barn pobl ifanc fel ymarfer o dan YEPF. Fodd bynnag, roedd cyfran ymatebwyr yr arolwg oedd yn teimlo bod y trefniadau i geisio barn pobl ifanc yn briodol, yn fwy na'r gyfran oedd yn teimlo nad oeddent yn briodol. Soniodd o leiaf hanner yr ymatebwyr y cyfwelwyd â nhw fod gwybodaeth gan bartneriaid ar safbwyntiau pobl ifanc ar gael. Nododd ymatebwyr Gyrfa Cymru fod eu sefydliad yn casglu adborth gan y rheiny sy'n defnyddio ei

wasanaethau yn haen 3, sydd yn bwydo i mewn i'w gwasanaeth. Awgrymodd ymatebwyr y cyfwelwyd â nhw fod gwybodaeth gan Gyrfa Cymru'n cael ei rhannu'n anffurfiol o fewn grwpiau llywio a gweithredol. Mae tri ALI o leiaf yn cynnal arolygon blynyddol yn asesu ymgysylltiad a bodlonrwydd pobl ifanc. Awgrymodd ymatebwyr ALI bod y canlyniadau'n cael eu rhannu a'u defnyddio i lywio ymarfer o fewn ALLau yn fwy cyffredinol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ymwneud yn benodol â threfniadau gwaith arweiniol. Mewn un ALI o leiaf, cafodd safbwyntiau pobl ifanc ynghylch trefniadau gwaith arweiniol eu trafod yn ystod mapio darpariaeth<sup>12</sup>. Gwnaed yr ymarfer hwn fel rhan o fapio darpariaeth gychwynol (sydd wedi ei gynnwys yn y gwerthusiad blaenorol).

- 8.13 Mae'r arolwg rhanddeiliaid yn dangos bod llai na hanner yr ymatebwyr (44 y cant) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod mecanweithiau priodol wedi eu sefydlu i geisio barn pobl ifanc er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu a chyflenwi gwasanaethau). Mae hyn yn adleisio'r cyfweiliadau ansoddol oedd yn awgrymu nad oedd llawer o adborth ffurfiol wedi cael ei gasglu gan bobl ifanc ar drefniadau broceriaeth.
- 8.14 Yn ogystal, nid oedd cyfran uwch o ymatebwyr yn gwybod (39 y cant) neu'n anghytuno/anghytuno'n gryf (35 y cant) gyda'r datganiad bod mecanweithiau priodol yn eu lle i geisio barn rhieni o ran datblygu a chyflenwi gwasanaethau. Dim ond ychydig dros chwarter yr ymatebwyr oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r honiad hwn (26 y cant o'r 428 o ymatebwyr).

*Beth sy'n gweithio'n dda*

- 8.15 Mae ISP rhwng partneriaid yn gyffredinol wedi eu sefydlu bellach rhwng sefydliadau ar grwpiau gweithredol ALI. Mae hyn wedi golygu bod trefniadau gweithwyr arweiniol wedi datblygu ar draws ALLau. Fodd bynnag, mewn nifer fach o ALLau, mae rhannu gwybodaeth yn dal yn her. Mae rhanddeiliaid bellach yn dod ynghyd yn gyffredinol i

---

<sup>12</sup> Gweler astudiaeth achos prosiect PEP yn y gwerthusiad YEPF blaenorol.

adolygu achosion unigol a dyrannu gweithwyr arweiniol a pheccynau cymorth.

- 8.16 Cafodd hyblygrwydd yn darparu'r trefniadau cywir o ran gweithiwr arweiniol ar gyfer person ifanc unigol ei amlygu fel elfen bwysig ar draws ALLau. Roedd EPC yn teimlo'n hyderus bod y grwpiau cywir yn gysylltiedig â threfniadau gwaith arweiniol a bod grwpiau gweithredol yn cyfarfod yn addas o reolaidd.

#### *Heriau*

- 8.17 Mae heriau'n parhau i EPC o ran cyfathrebu rôl y gweithiwr arweiniol o dan YEPF. Cafwyd cynnydd yn esbonio i randdeiliaid nad oes angen i'r teitl 'gweithiwr arweiniol' effeithio ar eu cyfrifoldebau na theitl eu swydd bresennol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae'r amgyffrediad hwn yn amharu ar y gwaith o ddyrannu gweithwyr arweiniol, gan fod staff yn poeni nad oes ganddynt yn gallu i fod yn gyfrifol am y rôl hon.
- 8.18 Mae gallu sefydliadau i ymgymryd â rôl gweithiwr arweiniol yn rhwystr sylweddol. Cafodd hyn ei amlygu gan gynrychiolwyr trydydd sector a'r rheiny gafodd gyfweiliad o ALLau. Mae gostyngiadau o ran cyllid mewnol ALLau wedi effeithio ar y gallu i ddarparu nifer addas o weithwyr arweiniol mewn ALLau, gan fod y gwasanaethau cymdeithasol yn derbyn y rôl hon yn aml. Mae gallu yn broblem benodol i'r trydydd sector; sydd yn dal wedi ei dangynrychioli mewn grwpiau strategol a gweithredol, ond allai, o bosibl, gymryd mwy o rôl mewn trefniadau gwaith arweiniol.
- 8.19 Awgrymodd staff ALI bod oedi o ran cyllid ESF wedi golygu, mewn llawer o ALLau, bod darpariaeth a gallu i ddarparu gweithwyr arweiniol yn gyfyngedig nes bod cyllid rhaglen yn dod drwodd. Nodwyd gan fwy na chwarter yr ALLau y dylai cymorth ychwanegol fod ar gael unwaith y mae'r rhaglenni hyn wedi eu sefydlu.
- 8.20 Mae tensiwn yn bodoli o hyd mewn nifer fach o ALLau rhwng Gyrfa Cymru a rhanddeiliaid eraill mewn perthynas â phobl ifanc haen 3. Mae dyrannu i haenau yn creu goblygiadau o ran adnoddau i

sefydliadau a gall trafod fod yn broses sensitif. Fodd bynnag, yr ALLau hyn oedd yr eithriad. Roedd y berthynas waith yn cael ei disgrifio'n gadarnhaol yn bennaf.

- 8.21 Nid oedd bron hanner yr holl ymatebwyr i'r arolwg ar-lein (49% o'r 428 o ymatebwyr) yn gwybod a oedd pobl ifanc yn cael cyfle i gael gweithiwr arweiniol oedd yn siarad Cymraeg (neu swyddogaeth debyg) os oeddent yn dymuno. Fodd bynnag, nododd y rheiny y cyfwelwyd â nhw y farn bod darpariaeth y Gymraeg yn ddigonol.

## **9. Olrhain a chyfnodau pontio pobl ifanc**

*Beth sy'n digwydd*

*(a) Cyn- 16*

- 9.1 Mae ALLau yn defnyddio eu systemau adnabod yn gynnar safonol mewn cyfarfodydd gweithredol i adolygu'r data a diweddarau statws pobl ifanc unigol. Mewn achosion lle nad yw ysgolion yn darparu data ar ffurf safonol i'r ALI, cynhelir cyfarfodydd bob tymor o leiaf gydag ysgolion i wirio bod y setiau data unigol yn gywir. Mewn dau ALI o leiaf, roedd yr EPC o'r farn y gallai cyfarfodydd gydag ysgolion fod yn fwy rheolaidd er mwyn sicrhau bod data olrhain yn cael ei ddiweddarau.
- 9.2 Yn gyffredinol, mae'r cyfathrebu rhwng ysgolion ac ALLau yn effeithiol ac wedi ei sefydlu'n dda. Fodd bynnag, mewn ALLau gyda nifer fawr o ysgolion, nid oedd ymwybyddiaeth glir bob amser o brosesau mewnol ysgolion unigol.
- 9.3 Roedd diffyg ymrwymiad i YEPF gan arweinwyr mewn nifer fach o ysgolion yn dal i gael ei ystyried yn rhwystr i drefniadau olrhain ym mhob ALI bron. Fodd bynnag, nododd ALLau hefyd bod gwelliannau sylweddol wedi bod yn y berthynas ac ymrwymiad gan ysgolion yn gyffredinol ers y prif werthusiad ffurfiannol.
- 9.4 Yn yr arolwg rhanddeiliaid, roedd dros draean yr ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr ALI yn cydlynu prosesau ar gyfer olrhain cynnydd pobl ifanc o dan 16 oed sydd mewn perygl o ymddieithrio yn effeithiol. Roedd 35 y cant i gyd (78 o'r 224 o ymatebwyr) yn cytuno'n gryf gyda'r datganiad hwn, a dim ond 1 person oedd yn anghytuno'n gryf.
- 9.5 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (74 y cant) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr ALI yn hwyluso rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid perthnasol er mwyn sicrhau olrhain cynnydd pobl o dan 16 oed sydd mewn perygl o ymddieithrio yn effeithiol.



### Ôl-16

- 9.6 Yn yr arolwg rhanddeiliaid, roedd 72 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr ALL yn hwyluso rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid perthnasol er mwyn sicrhau olrhain cynnydd pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio sydd dros 16 oed yn effeithiol.
- 9.7 Roedd 65 y cant i gyd o'r ymatebwyr yn teimlo bod system gadarn ar waith ar gyfer adnabod ac adrodd i Gyrfa Cymru ynghylch y rheiny sydd wedi rhoi'r gorau iddi neu sydd mewn perygl o wneud hynny.

### Ôl-18

- 9.8 Ar draws yr ALLau, nid oedd unrhyw drefniadau wedi eu sefydlu ar gyfer olrhain pobl ifanc oedd mewn swyddi heb hyfforddiant. Mae mwy o fanylion yn 11.4.

#### *Beth sy'n gweithio'n dda*

- 9.9 Nododd y rheiny y cyfwelwyd â nhw fod mwy o ymgysylltu gan ddarparwyr cyn ac ôl-16 a bod hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar allu'r ALL i olrhain unigolion sydd mewn perygl.

#### *Heriau*

- 9.10 Mae heriau o hyd o ran ymgysylltu darparwyr cyn ac ôl-16. Nid yw gwybodaeth gan ddarparwyr wedi ei diweddarau weithiau ac mae hyn yn gwneud olrhain yn fwy o her.
- 9.11 Dywedwyd bod gostyngiadau o ran cyllid ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol wedi arwain at lai o allu i adnabod pobl ifanc yn haen 1. Dim ond un person sydd gan rai ALLau sydd yn gweithio gyda'r grŵp hwn, ynghyd â'u cyfrifoldebau eraill yn aml.

## 10. Darpariaeth

*Beth sy'n digwydd*

- 10.1 Awgrymodd cyfweiliadau gydag EPC bod pob ALI yn mapio darpariaeth fel rhan o weithredu YEPF. Fodd bynnag, er bod cynllun gweithredu'r YEPF wedi nodi y dylid gweithredu a diweddarau'r mapiau darpariaeth yn flynyddol<sup>13</sup>, ers y gwerthusiad diwethaf, dim ond tua thraean yr ALLau nododd eu bod wedi diweddarau'r mapiau hyn. Mae gan rai ALLau gynlluniau i ddiweddarau'r mapiau darpariaeth dros y misoedd nesaf.
- 10.2 Nododd astudiaeth achos Gogledd Cymru, er enghraifft, bod mapio darpariaeth ranbarthol wedi cael ei gwblhau yn ddiweddar. Roedd hyn yn cynnwys mapio darpariaeth yn erbyn prif sectorau cyflogaeth yn y rhanbarth. Mae wedi golygu bod yr ALLau yn gallu nodi darpariaeth yn well ar gyfer pobl ifanc sydd yn byw gerllaw ffiniau rhwng ardaloedd ALI.
- 10.3 Yn gyffredinol, mae mapio darpariaeth wedi canolbwyntio ar nodi bylchau sy'n bodoli a dyblygu o ran darpariaeth. Yn chwarter yr ALLau o leiaf, mae gofynion y farchnad lafur wedi cael eu hystyried fel rhan o'r broses hon. Roedd syniad ymysg EPC bod gan ALLau eisoes wybodaeth am ofynion y farchnad lafur ac roedd y rhain yn cael eu hystyried yn anffurfiol fel rhan o'r broses mapio darpariaeth. Roedd rhai ALLau yn ymwybodol o waith yn ymwneud â Gwybodaeth am y Farchnad Lafur (LMI) mewn adrannau eraill neu trwy'r Bwrdd Uchelgais Economaidd, ond ni chafodd hyn ei rannu gydag EPC.
- 10.4 Roedd 75 y cant o'r 295 o ymatebwyr i'r arolwg rhanddeiliaid yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr ALI wedi gweithio'n effeithiol gyda'r holl rhanddeiliaid allweddol i fapio'r ddarpariaeth sydd ar gael.
- 10.5 Roedd tua dwy ran o dair (65 y cant o'r 293 o ymatebwyr) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr ALI wedi dadansoddi gwybodaeth a gasglwyd ar ôl cyflwyno'r YEPF yn effeithiol.

---

<sup>13</sup> <http://gov.wales/docs/dcells/publications/131007-ye-framework-implementation-plan-cy.pdf>, tud.43

- 10.6 Fodd bynnag, dim ond ychydig dros hanner yr holl ymatebwyr (55 y cant o'r 294 o ymatebwyr) oedd yn credu bod prosesau yn eu lle i ddarparu mapiau darpariaeth yn rheolaidd. Yn arbennig, nid oedd chwarter yr ymatebwyr yn gwybod a oedd prosesau wedi eu sefydlu i ddiweddar mapiau darpariaeth yn rheolaidd.
- 10.7 Roedd 64 y cant i gyd o'r 291 o unigolion hefyd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod gan yr ALI fforwm priodol ar gyfer gwneud penderfyniadau am y ffordd y dylid addasu'r ddarpariaeth i fodloni anghenion pobl ifanc yn well.

*Beth sy'n gweithio'n dda*

- 10.8 Dywedodd ALLau oedd wedi diweddarau eu mapio eu bod wedi gwneud hynny am eu bod wedi gweld buddion cynnal yr ymarfer. Defnyddiodd rhai ALLau y wybodaeth a gafwyd i deilwra eu darpariaeth a dileu dyblygu.
- 10.9 Cafodd yr ymarfer mapio pellach<sup>14</sup>, o dan arweiniad CWVYS, i edrych yn benodol ar ddarpariaeth y sector gwirfoddol ar draws Cymru ei groesawu. Nododd dau ALI o leiaf bod deall darpariaeth y sector gwirfoddol yn arbennig o anodd, o ganlyniad i nifer fawr o ddarparwyr bach. Roedd CYVWS yn gadarnhaol bod mwy o wybodaeth am y sector, trwy fapio darpariaeth, yn debygol o annog ymgysylltu â'r sector gwirfoddol.

*Heriau*

- 10.10 Nid oedd rhai ymatebwyr ALI y cyfwelwyd â nhw yn deall diben mapio darpariaeth a'r ffordd y gallai ddylanwadu ar ddarpariaeth. Cafodd hyn ei amlygu yn yr adroddiad blaenorol ac mae'n dal yn wir. Ni allai'r rhan fwyaf o ALLau gyfeirio at weithredoedd neu enghreifftiau penodol o newidiadau a wnaed o ganlyniad i ddiweddarau mapio darpariaeth.
- 10.11 Roedd pryderon, gyda chyfyngiadau o ran gallu i EPC ac aelodau eraill o staff ALI, y byddai diweddarau'r ymarfer mapio darpariaeth yn ddigon rheolaidd i'w wneud yn ddefnyddiol yn her.

---

<sup>14</sup> <http://www.cwys.org.uk/wp-content/uploads/2015/07/YEPF-report-Cymraeg.pdf>

## *CAP*

- 10.12 Nododd pob ALI bod y Prosbectws Ardal Gyffredin (CAP) wedi ei ddiweddarau ar y cyfan ac ar gael i ysgolion. Fodd bynnag, mewn tri chwarter o'r achosion o leiaf, awgrymodd ALLau nad oedd ysgolion yn hyrwyddo CAP.
- 10.13 Roedd dau ALLau o leiaf yn awyddus i ddefnyddio'r offeryn hwn ac yn teimlo y gallai fod yn eithriadol o fuddiol i bobl ifanc. O ganlyniad, gwnaeth yr ALLau hyn gynlluniau gweithredu i gyflwyno'r Broses Ymgeisio Gyffredin a'r Prosbectws Ardal Gyffredin gyda'i gilydd. Fodd bynnag, cafodd y Broses Ymgeisio Gyffredin ei thynnu'n ôl<sup>15</sup>, nid aeth y cynlluniau gweithredu hyn yn eu blaen ac nid oedd CAP yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth mwyach.

## *Heriau*

- 10.14 Yn yr ALLau oedd yn gysylltiedig â pheilot CAP, lle'r oedd ysgolion yn treialu proses ymgeisio ganolog, roedd teimlad bod ysgolion wedi gweld y broses ymgeisio yn anodd i'w defnyddio a bod hyn wedi eu troi yn erbyn yn syniad o CAP yn gyffredinol. Awgrymodd o leiaf un person a gafodd gyfweiliad, heb y broses ymgeisio, nad oedd yn teimlo bod CAP yn ychwanegu llawer o werth.
- 10.15 Nid oedd llawer o ymwybyddiaeth o CAP gan ALLau a rhanddeiliaid eraill. Roedd y rhan fwyaf yn awgrymu, ers y cyfnod peilot, nad oedd llawer o sgwrsio wedi bod am yr offeryn a bod defnydd ysgolion ohono yn gyfyngedig.
- 10.16 Awgrymodd staff ALI a darparwyr fod natur gystadleuol darpariaeth ôl-16 yn cael ei hystyried yn rhwystr i ymgysylltu â CAP. Awgrymodd o leiaf bedwar ALI amharoddrwydd gan rai ysgolion i dderbyn CAP am nad oedd llawer o ysgogiad gan y rheiny â chweched dosbarth i annog disgyblion i symud i ddarparwyr ôl-16 eraill (gan leihau eu cyllid ôl-16 eu hunain o bosibl).

---

<sup>15</sup> Gwnaeth Llywodraeth Cymru benderfyniad i atal datblygiad y cyfleuster Proses Ymgeisio Gyffredin, oherwydd materion technegol yn ymwneud â chreu llwyfan ymgeisio cyffredin ar draws pob darpariaeth ac ardal. Am fod prosesau ymgeisio eisoes yn bodoli, peidiodd y cyfleuster Proses Ymgeisio Gyffredin â bod yn flaenoriaeth.

### *Gwarant leuenctid*

- 10.17 Y Warrant leuenctid yw cynnig, derbyn a dechrau lle addas mewn addysg neu hyfforddiant ar gyfer person ifanc sydd yn symud am y tro cyntaf o addysg orfodol yn 16 oed. Ar draws ALLau, nid oedd llawer o waith yn cael ei wneud gan ysgolion nac ALLau i hybu'r Warrant leuenctid. Awgrymodd tua thraeaon o ALLau bod hyn yn digwydd i ryw raddau mewn ysgolion. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o ALLau nad oedd y Warrant leuenctid yn cael ei chrybwyll mewn cyfarfodydd gydag ysgolion ac nad oedd y term yn cael ei ddefnyddio'n aml. Roedd hybu'r Warrant leuenctid gan ALLau naill ai ddim yn amlwg neu ddim yn digwydd yn aml iawn.

### *Heriau*

- 10.18 Nid oes dealltwriaeth dda ynghylch perchnogaeth y Warrant leuenctid. Ymddengys nad oes llawer o ymwybyddiaeth os o gwbl o'r ffordd y byddai ysgolion yn hybu'r Warrant leuenctid. Awgrymwyd bod hyn o ganlyniad i ddiffyg cyngor ac arweiniad yn ymwneud â'r Warrant ei hun, yn ogystal â blaenoriaethu agweddau eraill ar y fframwaith gan ALLau.
- 10.19 Roedd barn ymysg nifer fach o ALLau bod y Warrant leuenctid yn cael ei hybu, ond nad oedd yn cael ei henwi'n benodol. Roeddent yn teimlo ei bod ymhlyg yn y gwaith yr oedd ysgolion eisoes yn ei wneud. Nodwyd hefyd, gyda chyfyngiadau sylweddol o ran gallu, bod y diffyg ysgogiad gan LIC wedi golygu nad yw ALLau yn rhoi blaenoriaeth i'r maes hwn.

## 11. Cyflogadwyedd

### *Beth sy'n digwydd*

- 11.1 Datgelodd cyfweiliadau cyfranogwyr a rhanddeiliaid mai'r haen cyflogadwyedd yw'r elfen sydd wedi ei datblygu leiaf yn y fframwaith. Mae ffocws ALLau yn dal ar adnabod yn gynnar, broceriaeth ac olrhain. Mae'r oedi o ran cyllid ESF hefyd wedi effeithio ar y maes gwaith hwn, gyda llawer o'r ALLau yn nodi eu bod yn aros am yr adnodd ychwanegol er mwyn mynd i'r afael â'r maes hwn o'r fframwaith.
- 11.2 Cafwyd cynnydd, fodd bynnag, dros y flwyddyn ddiwethaf. Nododd nifer fach o ALLau fod ganddynt bellach grŵp strategol yn edrych ar gyflogadwyedd neu fod ganddynt EPC sydd yn eistedd ar y grŵp yn yr ALI sydd yn gweithio ym maes cyflogaeth a sgiliau. Mae'n dal yn wir mewn traean o leiaf o ALLau nad yw'r trefniadau strategol ar gyfer yr elfen hon o'r gwaith wedi eu sefydlu.
- 11.3 Soniodd sawl ALI am raglenni, digwyddiadau a gweithdai penodol a gynhaliwyd gan YEPPF. Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf (RhCT), er enghraifft, yn dal i gynnal ei raglen cyn cyflogaeth, 'Eich Dyfodol yn Gyntaf', y nododd yr EPC ei bod bellach wedi ei theilwra'n well i fodloni anghenion cyflogwyr lleol. Nodwyd bod cyfraddau llwyddiant yn uchel, gyda 74% o'r cyfranogwyr yn symud i waith sefydlog ar ôl cwblhau'r rhaglen yn ôl yr ALI.
- 11.4 Ni nododd unrhyw ymatebwyr a gafodd gyfweiliad allgymorth na darpariaeth oedd wedi ei anelu'n benodol at bobl ifanc mewn swyddi heb hyfforddiant. Awgrymodd sawl ALI nad oedd hwn yn grŵp yr oeddent wedi ei ystyried yn eu gwaith ac roedd llawer yn ymddangos yn ansicr a oedd y grŵp hwn wedi ei gynnwys o dan gylch gorchwyl YEPPF. Roedd dau ALLau o leiaf wedi trafod y grŵp hwn mewn cyfarfodydd strategol, ond ni chymerwyd unrhyw gamau.
- 11.5 Awgrymodd ymatebwyr ALI fod newidiadau i gyllid yn effeithio ar Gyrfa Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf yn golygu nad oes ganddo gyllid na chronfa ddata bellach ar gyfer darparu lleoliadau gwaith.

Mewn rhai ALLau, awgrymodd EPC fod hyn wedi golygu nad oes unrhyw leoliadau gwaith gorfodol bellach mewn ysgolion uwchradd naill ai trwy ALLau neu Gyrfa Cymru. Awgrymwyd gan ymatebwyr ALLau bod hyn yn golygu nad oes profiad gwaith ar gael bellach, ac nad yw ysgolion yn gallu derbyn y cyfrifoldeb ychwanegol o drefnu ac olrhain lleoliadau. Mewn dau ALI o leiaf, awgrymodd y rheiny y cyfwelwyd â nhw y gallai cyllid ESF gefnogi profiad gwaith yn yr ALI.

- 11.6 Ar gyfer yr ALLau hynny sydd â rhaglenni olrhain ôl-16 canolog, mae rhaglenni olrhain, hyfforddeiaeth, prentisiaeth a chyflogadwyedd eraill yn cael sylw trwy'r systemau hyn. Yn hyn o beth, gall ALLau asesu lefelau cyfranogiad yn y cynlluniau hyn. Nid oedd llawer o dystiolaeth i awgrymu bod cyfranogiad mewn profiad gwaith a lleoliadau wedi cael ei asesu na'i ddefnyddio i lywio ymarfer. Fodd bynnag, cafodd lefelau cyfranogiad yn y cynlluniau hyn eu trafod fel rhan o gyfarfodydd gweithredol yn fwy cyffredinol. Awgrymodd EPC fod cynlluniau cyflogadwyedd yn cael eu holrhain fel rhan o systemau adnabod yn gynnar ac olrhain mewn cydgysylltiad â darparwyr WBL a cholegau.

*Beth sy'n gweithio'n dda*

- 11.7 Ceir dystiolaeth o gynnydd gyda'r elfen hon o'r fframwaith, gyda rhai ALLau yn gweithio'n fwy strategol. Caiff cyllid ESF ei ystyried yn allweddol i ddatblygu llwyddiant yr elfen hon o'r fframwaith ac mae'r broses ymgeisio wedi golygu ei fod wedi bod yn angenrheidiol ymrwymo llawer iawn o waith cynllunio a gallu i wneud penderfyniadau.

- 11.8 Roedd 43 y cant o'r ymatebwyr i'r arolwg ar-lein yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr ALI wedi arwain ymagwedd strategol tuag gyfleoedd gwirfoddoli a phrofiad gwaith ar gyfer pobl ifanc.

*Heriau*

- 11.9 Nodwyd gan y rheiny y cyfwelwyd â nhw mewn ALLau bod y cyfrifoldeb am elfen gyflogadwyedd y fframwaith mewn ALLau yn cael ei wasgaru'n aml rhwng adrannau ac, mewn llawer o achosion, nid yw'r cysylltiadau â grwpiau strategol cyflogadwyedd a sgiliau priodol

wedi cael eu gwneud. Mewn rhai achosion, o ganlyniad i anawsterau gallu, mae wedi arwain at sefyllfa lle nad oes llawer o brofiad gwaith, os o gwbl, ar gael.

- 11.10 Yn yr arolwg rhanddeiliaid, roedd 67 y cant o'r ymatebwyr (allan o 292) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr holl bartneriaid allweddol yn gweithio'n gydweithredol i gefnogi sgiliau cyflogadwyedd gwell ymysg pobl ifanc. Mae hyn yn awgrymu bod gwaith cadarnhaol yn cael ei wneud ond bod lle i wella. Dim ond 42 y cant o'r 290 o ymatebwyr oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr ALL yn ymgysylltu cyflogwyr yn effeithiol i wella sgiliau cyflogadwyedd pobl ifanc. Awgrymodd ymatebwyr y cyfwelwyd â nhw fod hwn yn dal yn faes lle'r oedd angen gwneud mwy o waith.
- 11.11 Ymatebodd cyfran sylweddol o unigolion drwy ddweud 'ddim yn gwybod' i gwestiynau am gyflogadwyedd. Er enghraifft, nid oedd 26 y cant o'r ymatebwyr yn gwybod a yw'r ALL yn ymgysylltu cyflogwyr yn effeithiol ac nid oedd 21 y cant o'r ymatebwyr yn gwybod a oedd yr ALL yn arwain ymagwedd strategol tuag at gyfleoedd gwirfoddoli a phrofiad gwaith ar gyfer pobl ifanc.
- 11.12 Roedd y cyfweiliadau'n awgrymu bod ALLau yn gyffredinol heb ystyried allgymorth na darpariaeth ar gyfer pobl ifanc mewn swyddi, ond heb hyfforddiant. I lawer, roedd hyn yn cael ei ystyried y tu hwnt i gylch gorchwyl yr EPC neu'n rhy anodd ei ystyried yn ymarferol. Gallai'r garfan hon fod yn arbennig o anodd ei hymgysylltu am nad oes ysgogiad efallai iddynt gydweithredu â gwasanaethau os ydynt wedi eu cyflogi. Er bod ALLau yn gweithio i ymgysylltu cyflogwyr, awgrymodd EPC bod gwaith i'w wneud o hyd yn y maes hwn ac nid yw'r cyfathrebu ar hyn o bryd ar y lefel fyddai'n galluogi ALLau i gyrraedd y rheiny mewn swyddi ond heb hyfforddiant.



## 12. Atebolrwydd

### *Beth sy'n digwydd*

- 12.1 Awgrymodd o leiaf dri chwarter yr ALLau bod dealltwriaeth well o gyfrifoldebau ac atebolrwydd rhanddeiliaid yn y fframwaith. Gall hyn gael ei weld fel canlyniad sefydlu grwpiau strategol a gweithredol, sydd yn weithredol ac yn cyfarfod yn rheolaidd.
- 12.2 Roedd rhanddeiliaid cenedlaethol (fel WLGA, NTFW a Cholegau Cymru) yn dal wedi ymgysylltu a dangosodd adborth o gyfarfodydd rhanbarthol fod y rhain yn cael eu hystyried yn gadarnhaol ac yn gynhyrchiol. Ystyriwyd bod mwy o ymgysylltu â'r trydydd sector yn arbennig o gadarnhaol.
- 12.3 Yn yr arolwg rhanddeiliaid, roedd 68 y cant o'r 433 o gyfranogwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod rhannu gwybodaeth yn dda rhwng partneriaid ar ôl cyflwyno'r fframwaith.
- 12.4 Mae atebolrwydd ôl-18 yn dal yn faes y mae angen i ALLau ei ddatblygu'n fwy. Mae nifer fach o ALLau yn credu nad yw darpariaeth ôl-18 yn rhan o'r fframwaith ac felly nid ydynt yn ceisio gweithio gyda'r grŵp hwn. Mae'r rhan fwyaf o ALLau fodd bynnag, yn gweld hwn fel maes gwaith parhaus y byddant yn gallu canolbwyntio mwy arno unwaith y mae'r gwaith cyn-18 wedi ei sefydlu ymhellach.

### *Beth sy'n gweithio'n dda*

- 12.5 Roedd llawer o swyddogion ALI a phartneriaid o'r farn bod atebolrwydd wedi gwella ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant neu mewn perygl o hynny. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae strwythurau llywodraeth strategol wedi esblygu ac roedd y mwyafrif o'r farn bod y partneriaid cywir yn cymryd cyfrifoldeb dros weithredu'r fframwaith:

'mae'n amlwg pwy sy'n gyfrifol am beth...mae'r ALI yn amlwg yn arwain ac mae darparwyr eraill yn gyfforddus ar y cyfan yn dod o hyd i atebion rhyngom'

(EPC)

- 12.6 Er gwaethaf heriau yn ymwneud ag ISP gyda'r Ganolfan Byd Gwaith (JCP) ar gyfer y garfan ôl-18, ceir enghreifftiau lle mae trefniadau lleol wedi cael eu gwneud i hwyluso cyfathrebu gyda JCP. Mewn dau ALI o leiaf, roedd aelodau staff o Gyrfa Cymru wedi cael eu secondio, yn rhan-amser o leiaf, i weithio yn JCP. Trwy'r aelodau staff hyn, mae'r ALI wedi gallu diweddarau'r data a monitro statws yr unigolion hyn mewn cysylltiad â JCP.

#### *Heriau*

- 12.7 Mae pryder o hyd ymysg rhai ALLau bod ymrwymiad uwch o fewn yr ALI yn dal yn her a bod natur anstatudol y canllawiau wedi arwain at wanhau ymrwymiad gan uwch reolwyr dros amser.
- 12.8 Ceir amrywiad sylweddol yn y mecanweithiau atebolrwydd o fewn ALLau. Mae staff ALI gafodd gyfweiliad yn awgrymu bod traean o'r ALLau o leiaf heb unrhyw fecanweithiau adrodd ffurfiol, tra bod gan eraill fecanweithiau rheolaidd a chadarn i fonitro cynnydd. Roedd barn ymysg tri ALI o leiaf y gallai canllawiau cliriach gan LIC ar ddulliau adrodd wella atebolrwydd.
- 12.9 Roedd 60 y cant o'r 430 o ymatebwyr i'r arolwg ar-lein yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod ALLau yn rhannu tystiolaeth am gynnydd gyda'r holl randdeiliaid allweddol ar ôl cyflwyno'r YEPF. Mae hyn yn amlygu angen i ALLau sicrhau bod cynnydd yn cael ei gyfathrebu i randdeiliaid.

### **13. Astudiaeth achos Gogledd Cymru**

#### *Cefndir i'r bartneriaeth*

- 13.1 Sefydlodd Cydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu (EPC) o chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru grŵp EPC rhanbarthol ym mis Mehefin 2014. Gyda chyflwyniad cymharol ddiweddar y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (YEPP), roedd yr EPC yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol iddynt gyfarfod fel grŵp i rannu ymarfer tra'n gweithredu'r fframwaith. Awgrymodd y rheiny y cyfwelwyd â nhw fod ewyllys gwleidyddol hefyd tuag at waith rhanbarthol yng Ngogledd Cymru, gyda grwpiau strategol allweddol fel Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi eu sefydlu a phrosiect ESF rhanbarthol yn cael ei sefydlu.
- 13.2 Roedd yr awdurdodau lleol i gyd ar gyfnodau gwahanol o weithredu ac roedd yr EPC eu hunain yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd (er enghraifft, gwaith ieuenctid ac addysg). Roedd y grŵp yn gweld ei hun fel ffordd o rannu profiad ac arfer da.
- 13.3 Bwriad Partneriaeth Gogledd Cymru (GC) i ddechrau, gan yr EPC yn y grŵp, oedd bod yn weddol weithredol, ond ers hynny mae wedi datblygu i gynnwys gwaith mwy strategol. Cafodd y grŵp ei sefydlu ar sail weddol anffurfiol ar y dechrau, ond mae wedi datblygu i gynnwys cyfarfodydd misol, cylchoedd gorchwyl ac agendâu penodol. Caiff y gwaith o weinyddu'r grŵp hwn ei ariannu gan Gyngor Gwynedd. Fel rhan o'r cytundeb ar gyfer secondio EPC Gwynedd o Gyrfa Cymru, roedd yr EPC i fod datblygu unrhyw waith rhanbarthol o fewn yr YEPP. Roedd EPC Gwynedd yn teimlo y gallai arwain ar lefel strategol a gweithio ar lefel weithredol, gyda digon o allu hefyd i arwain yn rhanbarthol. Mae Gwynedd hefyd yn arwain ar lefel rhanbarthol o ran yr agenda sgiliau a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.
- 13.4 Roedd y grŵp yn wynebu her gychwynnol bosibl o ran cydgysylltu am fod yr holl awdurdodau lleol wedi gweithredu'r fframwaith ychydig yn wahanol. Fodd bynnag, roedd yr EPC yn teimlo fel a ganlyn:

‘Y sefyllfa yn ein hawdurdodau lleol unigol oedd yr her a’r grŵp oedd y ffordd y gwnaethom oresgyn yr heriau hyn.’

*Elfennau o’r fframwaith*

- 13.5 Roedd y grŵp EPC wedi mabwysiadu dull rhanbarthol o adnabod yn gynnar cyn-16, yn bennaf trwy gomisiynu’r Offeryn Proffil Dysgwr yn rhanbarthol, sef offeryn adnabod yn gynnar a ddatblygwyd gyda CAPITA. Roedd hwn yn seiliedig ar offeryn cychwynnol a gomisiynwyd o Cynnal gan Gyngorau Gwynedd ac Ynys Môn.
- 13.6 Cafodd yr offeryn rhanbarthol ei ariannu gan bob un o’r chwe awdurdod lleol, ond o gronfeydd amrywiol o fewn pob awdurdod yn dibynnu ar argaeledd adnoddau. Cydgysylltodd Cyngor Sir Gwynedd ddulliau talu am yr offeryn.
- 13.7 Er mwyn datblygu dull rhanbarthol, mapiodd y grŵp yn gyntaf yr hyn yr oedd pob awdurdod lleol wedi ei sefydlu yn barod, er enghraifft o ble yr oedd y data’n cael ei gasglu a pha ddangosyddion allweddol oedd yn cael eu defnyddio. Yna casglwyd yr holl swyddogion data perthnasol ynghyd a sefydlu’r gofynion allweddol ar gyfer offeryn rhanbarthol. Yna datblygodd EPC yr offeryn gyda CAPITA trwy ddefnyddio set o ddangosyddion sydd wedi eu cynnwys yng Nghanllawiau Adnabod yn Gynnar YEPF ac o ymchwil genedlaethol. Caiff yr offeryn ei lywio gan ddata sydd eisoes ar gael trwy SIMS<sup>16</sup> a’i fewnforio i System Gwybodaeth Rheoli (MIS) PRIME ONE awdurdod lleol ar draws pob un o’r chwe awdurdod lleol. Mae gan bob dangosydd bwysoliad. Mae’r offeryn yn defnyddio system sgorio ac yn rhoi dysgwyr mewn “bandiau” lliw.
- 13.8 Mae EPC yn pwysleisio bod y broses ranbarthol hon yn anodd ar adegau, gan fod pob awdurdod lleol eisoes wedi sefydlu prosesau adnabod yn gynnar. Yn hynny o beth, roedd angen i bob awdurdod lleol gyfaddawdu a chydweithredu â’i gilydd er mwyn cyfuno agweddau pwysig o’u systemau adnabod yn gynnar eu hunain â’r

---

<sup>16</sup> System rheoli gwybodaeth ysgol. Mae SIMS yn gynnyrch Capita sy’n cael ei ddefnyddio mewn llawer o ysgolion yng Nghymru. Mae llawer o awdurdodau lleol hefyd yn defnyddio cynnyrch One a Prime Capita i gyfnewid data gydag awdurdodau lleol.

offeryn newydd. Er enghraifft, roedd Cyngorau Gwynedd ac Ynys Môn eisoes yn defnyddio eu hofferyn Cynnal gwreiddiol ac roedd yn rhaid iddynt fuddsoddi'n sylweddol mewn gwaith rhanbarthol i newid i system ranbarthol newydd. Mae wedi cymryd o leiaf 12 mis o weithdai a chyfarfodydd i gydlynu prosesau mewnbynnu data a dangosyddion allweddol er mwyn datblygu'r offeryn.

13.9 Nod yr offeryn adnabod yn gynnar yw:

- adnabod dysgwyr sydd mewn perygl o ymddieithrio;
- adnabod dysgwyr ar gyfer prosiect rhanbarthol 11-24 TRAC<sup>17</sup>;
- cefnogi'r gwaith o flaenoriaethu adnoddau a chymorth priodol ar gyfer dysgwyr a nodir;
- dyrannu cymorth Gweithiwr Arweiniol;
- cefnogi'r gwaith o nodi bylchau mewn darpariaeth/cymorth;
- targedu cymorth o fewn dangosyddion penodol e.e. presenoldeb;
- olrhain cynnydd dysgwyr sydd yn derbyn cymorth / darpariaeth a mesur yr effaith yn erbyn dangosyddion;
- sicrhau cysondeb yn y ffordd y caiff dysgwyr eu hadnabod;
- darparu data cyson ar gyfer atgyfeirio dysgwyr i baneli cymedroli.

13.10 Mae'r offeryn bellach wedi ei sefydlu ac mae sefyllfaoedd prawf yn cael eu cynnal. Mae dwy agwedd i brif fuddion y dull yma. I ddechrau, mae'r awdurdodau, ar y cyd, wedi ariannu'r offeryn ac mae hyn wedi bod yn fwy cost-effeithiol na phe byddai pob awdurdod lleol wedi datblygu offeryn ar wahân. Yn ail, bydd data adnabod yn gynnar yn gyson bellach. Caiff data ei gasglu gan ddefnyddio'r un dulliau a'i gyflwyno'n gyson, sy'n golygu y gall y rheiny sy'n gweithio o fewn yr YEPF fonitro newidiadau mewn data ar draws y rhanbarth cyfan ac ymateb yn unol â hynny. Mae hyn yn cynyddu hyder yng nghywirdeb

---

<sup>17</sup> Roedd prosiect TRAC, a ariannwyd gan Gronfa Strwythurol Ewrop, yn brosiect wedi ei anelu at bobl ifanc 11-24 oed i adnabod darparwyr hyfforddiant a sgiliau i weithio gyda phobl ifanc a fyddai fel arall mewn perygl o fynd yn NEET.

y data. Mae ysgolion hefyd wedi ymateb yn gadarnhaol i'r dull rhanbarthol newydd hwn:

'Roedd gan yr holl awdurdodau lleol ryw system adnabod yn gynnar o'r blaen, ond bellach nid oes angen i chi fynd i mewn i ysgolion unigol am ddata, gallwch gael gwybodaeth ranbarthol trwy glicio botwm.'

(EPC)

- 13.11 Nid oes dull rhanbarthol o adnabod yn gynnar ôl-16 wedi cael ei ddatblygu'n llawn eto, ond mae'r grŵp yn annog cydweithwyr i ddefnyddio offeryn adnabod yn gynnar ôl-16 rhanbarthol, ffurfiol ac yn cael rhywfaint o lwyddiant yn y maes yma. Mae Grŵp Llandrillo Menai yn arwain y gwaith hwn ac mae'r offeryn mewn cyfnod cynnar iawn. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Hydref 2015 er mwyn cytuno ar y prif ddangosyddion mewn egwyddor. Mae'r gwaith hwn yn barhaus ac mae'r grŵp wedi cyflwyno'r dull rhanbarthol hwn i Lywodraeth Cymru er mwyn cael ei chefnogaeth i ddatblygu'r offeryn yn llawn.
- 13.12 Mae'r grŵp hefyd wedi datblygu dull rhanbarthol o froceriaeth cyn-16. Mae'r grŵp wedi datblygu dyluniad rhanbarthol safonol ar gyfer paneli broceriaeth, gan ddarparu canllawiau ar gyfansoddiad aml-asiantaeth y paneli, sut maent yn ymateb i ddata adnabod yn gynnar a sut maent yn dyrannu gweithwyr arweiniol. Mae'r dyluniad rhanbarthol hwn felly'n sicrhau elfen o safoni ar draws y rhanbarth, gan fod pob awdurdod lleol yn gallu dyblygu'r paneli ar sail awdurdod lleol unigol. Nod y grŵp felly yw safoni'r broses froceriaeth ar draws y rhanbarth, tra'n parhau i weithredu'r broses ar lefel ALI. Mabwysiadwyd y broses hon trwy gyfaddawd ac addasu prosesau awdurdodau lleol unigol.
- 13.13 Buddion y dull hwn yw ei fod yn darparu fframwaith broceriaeth rhanbarthol heb fod yn rhy gyfarwyddol a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gyson ar draws y rhanbarth. Fel adnabod yn gynnar ôl-16, mae gan y grŵp ar hyn o bryd fynediad cyfyngedig i ddata ôl-16 ac mae'r cyfrifoldeb dros froceriaeth wedi ei neilltuo i Gyrfa Cymru.

- 13.14 Trwy'r Offeryn Proffil Dysgwr, mae gan y grŵp ddull cyson o olrhain ôl-16. Nid yw'r grŵp wedi mynd ymlaen i ranbartholi eu dull o olrhain ôl-16 eto ac mae awdurdodau lleol felly'n parhau gyda'u system bresennol o ymateb i ddata misol Gyrfa Cymru trwy baneli rheolaidd.
- 13.15 Mae'r grŵp wedi bod yn ymgysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn ymwneud ag olrhain y rheiny sydd yn 18+ oed ac, o ganlyniad, mae DWP yn bwriadu darparu aelod o staff ar gyfer pob awdurdod lleol i'w cefnogi gyda'r gwaith olrhain ôl-18. Mae'r dull rhanbarthol hwn yn dal i gael ei ddatblygu.
- 13.16 Mae gweithio fel grŵp hefyd wedi galluogi EPC i ddatblygu map rhanbarthol cyflawn o ddarpariaeth. Cefnogodd Bwrdd Uchelgeisiau Economaidd Gogledd Cymru ddull rhanbarthol trwy ddarparu intern dros dro i gefnogi'r mapio. Buddion y dull hwn yw bod pob awdurdod lleol bellach yn gweithio o'r un map darpariaeth, fel bod pob awdurdod lleol bellach yn gwybod beth sydd ar gael ar draws ffiniau a gallant ddarparu ystod ehangach o ddarpariaeth ar gyfer eu pobl ifanc. Nid oes unrhyw waith sylweddol arall yn ymwneud â mapio darpariaeth wedi cael ei wneud yn rhanbarthol, er bod pob ALI wedi parhau â'i waith ei hun (er enghraifft cynllunio i lanlwytho gwybodaeth fapio ar-lein).

*Canlyniadau ac ychwanegolrwydd*

- 13.17 Awgrymodd y cyfranogwyr bod mabwysiadu'r dull rhanbarthol hwn o gydgyssylltu agweddau ar y YEPF wedi rhoi ystod o fuddion, yn cynnwys rhoi gwerth ychwanegol i waith ar lefel awdurdod unigol.
- 13.18 Mae mabwysiadu dull rhanbarthol yn datblygu cymorth parhaus ar gyfer pobl ifanc. Mae'n sicrhau bod pobl ifanc yn cael cymorth o'r un ansawdd ym mhob ALI, nad ydynt yn dod i gysylltiad ag ystod ormodol o asiantaethau cymorth a bod ganddynt fynediad i ddarpariaeth ar draws ffiniau awdurdodau lleol.

'Rwy'n credu ein bod wedi gwneud gwahaniaeth mawr i bobl ifanc haen 1, sydd wedi cael eu canfod a'u rhoi ar lwybr.'

(Rhanddeiliad)

13.19 Mae'r dull rhanbarthol hefyd yn galluogi'r EPC i rannu arfer da, syniadau a phrofiadau gyda'i gilydd. Mae'r EPC yn dod â syniadau ac awgrymiadau i'r cyfarfodydd ac mae ganddynt i gyd gefndiroedd gyrfaol gwahanol. Er enghraifft, roedd un EPC yn gweithio mewn swyddfa'n bennaf a heb weithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc ers blynyddoedd. Fe wnaeth yr EPC yma felly ymweld â phobl ifanc haen 1 a 2 gyda swyddogion o Gyngor Sir y Fflint er mwyn ehangu eu dealltwriaeth o anghenion y bobl ifanc hyn. Mae EPC Gwynedd hefyd ar secondiad o Gyrfa Cymru, felly mae'n gyswllt gwerthfawr i EPC eraill gyda Gyrfa Cymru.

13.20 Mae rhannu arbenigedd fel hyn yn ddefnyddiol o ran gwaith arwain o fewn pob awdurdod lleol a rhoi'r syniadau mwyaf effeithiol i EPC ar gyfer gweithredu pob agwedd ar yr YEPPF (*"Dechreuais yn hwyr fel EPC ac mae'r grŵp yma wedi bod yn achubiaeth"*). Yn arwyddocaol, mae rhannu arfer da fel hyn hefyd yn osgoi dyblygu gwaith ac adnoddau, gan sicrhau bod yr YEPPF yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n effeithlon o ran adnoddau:

'Mae'r grŵp wedi rhoi gwerth am arian gwirioneddol o ran canlyniadau, ni fyddwn wedi gwneud hanner cymaint o waith [yn fy awdurdod lleol] oni bai am y grŵp yma.'

(EPC)

'Fe wnaeth y grŵp leihau dyblygu gwaith, os oes rhaid i ni gyflwyno rhywbeth newydd gallwn ddod yn ôl a rhannu'r hyn oedd wedi gweithio ac nad oedd wedi gweithio.'

(EPC)

13.21 Mae'r grŵp yn credu bod rhoi cryfder, dylanwad a nerth i EPC wedi bod o fudd mawr i fabwysiadu dull rhanbarthol o weithredu'r YEPPF. Mae gweithio ar sail ranbarthol wedi galluogi'r EPC i siarad ar y cyd ac felly cael mwy o ddylanwad ar ddatblygu prosiectau a pholisïau lleol perthnasol, yn ogystal â sicrhau bod penderfyniadau ar y cyd yn cael eu mabwysiadu fel polisïau difrifol o fewn eu hawdurdodau lleol unigol.



13.22 Er enghraifft, mae gwaith y grŵp wedi dylanwadu ar ddatblygiad prosiect newydd TRAC ac mae wedi llywio gwaith ym mhartneriaeth ranbarthol 14-19. Mae'r grŵp hefyd wedi gallu ymgysylltu'n well â gwaith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac, o ganlyniad, roedd gan y bwrdd gynlluniau i arddangos dull rhanbarthol y grŵp yn ystod ei gynhadledd sgiliau a chyflogadwyedd ym mis Mawrth 2016 ac mae wedi gwahodd aelod o'r grŵp i eistedd ar y Bwrdd. Mae'r grŵp hefyd wedi gallu mynd at Lywodraeth Cymru gyda'u hofferyn adnabod yn gynnar ôl-16 rhanbarthol posibl fel model ar gyfer dull cenedlaethol.

'Nawr ein bod wedi ein sefydlu, mae pobl yn gwybod bod angen iddynt ddod i'r cyfarfod hwn er mwyn cyflawni pethau.'

(EPC)

#### *Camau nesaf*

